


The hub Yr hyb

mwynhewch
eich Llyfrgell Leol

explore
your Cardiff Library

# Strategaeth Hybiau a Llyfrgelloedd Caerdydd

2024 -2029

CRYFACH
TECACH
GWYRDDACH

STRONGER
FAIRER
GREENER

CARDIFF
CAERDYDD

# Rhagair y Cynghorydd Bridgeman




Rwy'n falch o gyflwyno **Strategaeth Hybiau a Llyfrgelloedd Caerdydd 2024 - 2029**. Ers dod yn Aelod Cabinet dros Dai a Chymunedau gyda chyfrifoldeb am Hybiau a Llyfrgelloedd, rwyf wedi ymweld â phob Hwb a Llyfrgell yng Nghaerdydd. Mae wedi bod yn anhygoel cwrdd â chymaint ohonoch wrth i chi gasglu llyfr, mynychu digwyddiad, mynd ar-lein, derbyn cyngor pwysig, mynychu hyfforddiant, casglu gwybodaeth iechyd ddibynadwy neu ddefnyddio unrhyw un o'r gwasanaethau hanfodol eraill sy'n digwydd o fewn y gwasanaeth.

Rwy'n ddiolchgar iawn i bawb a gymerodd yr amser i gymryd rhan yn ein hymgynghoriad eang, sydd wedi llywio'r strategaeth hon, a fydd yn cael ei gweithredu dros y pum mlynedd nesaf i ddarparu'r gwasanaethau gorau posibl i ddinasyddion Caerdydd.

Un o'r pethau a wnaeth sefyll allan yn yr ymgynghoriad oedd sut mae'r Hybiau a'r Llyfrgelloedd wedi'u hymwreiddio gymaint yn eu cymunedau lleol. Mae 75% o oedolion a 67% o blant a ymatebodd yn byw yn ardal yr Hyb a'r Llyfrgell y maent yn eu defnyddio fwyaf. Rwy'n gwbl ymwybodol o effeithiau parhaus y pandemig yng Nghaerdydd. Cyhoeddodd Cabinet Caerdydd Argyfwng Tai yn 2023. Mae'r argyfwng costau byw wedi ychwanegu at y pwysau hyn, ond rwy'n parhau i fod yn hyderus y bydd ein Hybiau a'n Llyfrgelloedd yn parhau i fod yn ganolfannau ar gyfer cefnogi'r rhai mwyaf agored i niwed.

Rwy'n falch o'r gwaith sy'n digwydd i ddarparu'r amrywiaeth enfawr o wasanaethau a chyfraniad ein staff, gwirfoddolwyr, partneriaid a ffrindiau i wella bywydau pobl Caerdydd.



**"Rwy'n teimlo'n hyderus y bydd ein Hybiau a'n Llyfrgelloedd yn parhau i fod yn ganolfannau ar gyfer cefnogi'r rhai mwyaf agored i niwed"**

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Rhagair y Cynghorydd Bridgeman | **2** |
| Llinell Amser Hybiau | **4** |
| Crynodeb Gweithredol | **5** |
| Cyd-destun Strategol | **6** |
| Prif Ystadegau | **8** |
| Gwrando arnoch chi: | **9** |
| Ein Gweledigaeth | **10** |
| **Nod Allweddol 1:** Ysbrydoli a hyrwyddo mwynhad o ddarllen, dysgu, creadigrwydd a diwylliant | **11** |
| **Nod Allweddol 2:** Darparu ffynonellau cywir a dibynadwy o gyngor a gwybodaeth arbenigol | **19** |
| **Nod Allweddol 3:** Sicrhau bod cymorth ar gael i'r rhai y mae costau byw cynyddol yn effeithio fwyaf arnynt | **23** |
| **Nod Allweddol 4:** Galluogi mynediad at dechnoleg a fformatau digidol, gan gefnogi mwy o gynhwysiant digidol | **28** |
| **Nod Allweddol 5:** Cefnogi pobl i uwchsgilio, dod o hyd i gyflogaeth barhaus â chyflog uwch | **31** |
| **Nod Allweddol 6:** Rhoi cyfleoedd i blant a phobl ifanc gyflawni eu llawn botensial | **36** |
| **Nod Allweddol 7:** Helpu pawb i fyw'n dda | **41** |
| **Nod Allweddol 8:** Darparu rhaglenni gwirfoddoli amrywiol sy'n helpu pobl i ddatblygu sgiliau, profiad a chysylltiadau cymdeithasol | **49** |
| **Nod Allweddol 9:** Darparu mannau cymunedol ac arbenigol bywiog, croesawgar a chynhwysol – lle diogel a chymdeithasol i bawb | **53** |
| **Nod Allweddol 10:** Sicrhau bod cymunedau sydd ei angen yn elwa ar wasanaethau'r Hyb a chwilio am gyfleoedd i ehangu'r ddarpariaeth | **61** |
| Y Camau Nesaf | **75** |

# Llinell Amser Hybiau

Gosododd Cabinet Cyngor Caerdydd ymrwymiad i ddatblygu Hybiau

**Lansio rhaglen treialu Hybiau lwyddiannus** yn Llyfrgelloedd Llanrhymni a Trowbridge/Llaneirwg

**Datblygu rhagor o Hybiau** yn Ne, Dwyrain a Gorllewin y Ddinas

**2015** - Lansio Hyb Uwch yn Hyb y Llyfrgell Ganolog

**2018** - Cabinet yn cytuno i ymestyn y rhaglen Hybiau ledled Caerdydd i gynnwys Gogledd y Ddinas

**Medi 2018** - Agoriad Hyb Ieuenctid Pafiliwn Butetown

**Agoriad Capel I Bawb** Canolfan gyngor Iechyd a Lles

**2023** - Agoriad Hyb Lles yn Y Maelfa

**Ar y Gweill** - Hyb Lles yn Parkview




© Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata [2025] Arolwg Ordnans AC0000816513
© Crown copyright and database rights [2025] Ordnance Survey AC0000816513

# Crynodeb Gweithredol

Mae'r adroddiad hwn yn amlinellu ein hamcanion strategol gyda'r nod o annog ymgysylltiad y gymuned, hyrwyddo llythrennedd a darparu gwasanaethau hanfodol ledled Caerdydd. Mae ein gweledigaeth yn cael ei chyflawni drwy deg nod allweddol sydd wedi'u cynllunio i ysbrydoli darllen, cefnogi dinasyddion, a gwella iechyd a lles cymunedol a fydd yn cael eu cyflawni drwy gyflawni'r datganiadau **'Byddwn yn'** sy'n cael eu hadlewyrchu drwy gydol y strategaeth hon.

**Gweledigaeth:**
'Darparu gwasanaethau a chymorth o ansawdd uchel i ddiwallu anghenion penodol pob cymuned'

**Nod Allweddol 1: Ysbrydoli Darllen a Diwylliant**

Ein nod yw meithrin cariad at ddarllen a dysgu trwy ddarparu casgliadau llyfrau amrywiol sy'n adlewyrchu dewisiadau ein cymunedau, gan gynnwys unigolion niwrowahanol.

**Nod Allweddol 2: Darparu Gwybodaeth a Chyngor Dibynadwy**

Rydym wedi ymrwymo i wella mynediad at gyngor a gwybodaeth a chynnal safonau uchel drwy Fframwaith Ansawdd Gwybodaeth a Chyngor Llywodraeth Cymru.

**Nod Allweddol 3: Darparu Cymorth Costau Byw**

Bydd ein pwyslais ar ddarparu cymorth i'r rhai yr effeithir arnynt fwyaf gan y costau byw cynyddol.

**Nod Allweddol 4: Gwella Cynhwysiant Digidol**

Byddwn yn esblygu ein gwasanaethau digidol, gan ymgorffori technolegau newydd i helpu i wrthsefyll tlodi digidol ac arfogi pobl â sgiliau digidol hanfodol.

**Nod Allweddol 5: Cefnogi Cyflogaeth ac Uwchsgilio**

Byddwn yn darparu ystod o gymorth cyflogadwyedd gan gynnwys cymorth anffurfiol, mentora un i un a rhaglenni hyfforddi.

**Nod Allweddol 6: Grymuso Plant a Phobl Ifanc**

Mae ein hymrwymiad yn cynnwys ymgysylltu â phlant a phobl ifanc a'u teuluoedd i lunio ein casgliadau a chynnig gweithgareddau a digwyddiadau o safon iddynt.

**Nod Allweddol 7: Hyrwyddo Iechyd a Lles**

Byddwn yn cefnogi mentrau iechyd, gan gynnwys cynlluniau fel Daioni Darllen a phrofion iechyd cymunedol, wrth gydweithio â phartneriaid iechyd i wella ymwybyddiaeth iechyd y cyhoedd.

**Nod Allweddol 8: Cynnig Cyfleoedd Gwirfoddoli**

Bydd ein rhaglenni gwirfoddoli amrywiol yn gwella sgiliau ac yn cysylltu pobl â'u cymuned.

**Nod Allweddol 9: Darparu Mannau Cynhwysol**

Bydd ein Hybiau a'n Llyfrgelloedd wedi eu cynllunio i ddiwallu anghenion cymunedau Caerdydd.

**Nod Allweddol 10: Ceisio Allgymorth ac Ymestyn Cyfleoedd Darpariaeth**

Sicrhau bod cymunedau sydd ei angen yn elwa o wasanaethau'r Hyb a chwilio am gyfleoedd i ehangu'r ddarpariaeth.

# Cyd-destun Strategol

Mae'r strategaeth hon yn seiliedig ar y ddeddfwriaeth, y cynlluniau a'r strategaethau canlynol ac yn ymateb iddynt:

**Deddf Llyfrgelloedd Cyhoeddus ac Amgueddfeydd 1964**

Mae'n ofynnol i Awdurdodau Llyfrgell "darparu gwasanaeth llyfrgell cynhwysfawr ac effeithlon i bawb sydd am wneud defnydd ohono".

Mae perfformiad Gwasanaeth Llyfrgell Cyngor Caerdydd yn cael ei fonitro gan Lywodraeth Cymru drwy Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru.

Yn asesiad blynyddol Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru ar gyfer 2023/24, perfformiodd Caerdydd yn dda yn erbyn ystod o ddangosyddion a mesurau ansawdd sy'n asesu'r gwasanaethau a ddarperir.

- Mae Caerdydd yn chwartel uchaf awdurdodau llyfrgell Cymru o ran nifer y cwsmeriaid a gafodd eu helpu drwy gymorth ffurfiol ac anffurfiol i ddefnyddwyr
- Mae Caerdydd yn chwartel uchaf awdurdodau llyfrgelloedd Cymru o ran presenoldeb mewn digwyddiadau fesul pen o'r boblogaeth ac mae cyfanswm y mynychwyr wedi codi 80% o'i gymharu â 2022-23
- Mae'r gwasanaeth hefyd yn y chwartel uchaf o ran cyhoeddiadau llyfrau i oedolion a phlant: mae cyhoeddiadau llyfrau oedolion wedi cynyddu 16% a chyhoeddiadau plant 5% o'i gymharu â 2022-23
- Mae Caerdydd yn parhau i fod yn y chwartel uchaf o ran cyhoeddiadau Cymraeg fesul pen o'r boblogaeth
- Mae'r gwasanaeth Llyfrgell yn cael ei reoli'n strategol gan Lyfrgellydd Siartredig sydd wedi bod yn Gadeirydd Cymdeithas Prif Lyfrgellwyr Cymru ers sawl blwyddyn

**Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015**




Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn canolbwyntio ar wella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i bob awdurdod lleol gynnal asesiad o lesiant, er mwyn llywio cynllun llesiant lleol.

**Cynllun Lles Caerdydd 2023-2028**

Mae cynllun Caerdydd yn nodi'r amcanion lles canlynol ar gyfer Caerdydd:

- Mae Caerdydd yn Lle Gwych i Gael eich Magu
- Mae Caerdydd yn Lle Gwych i Dyfu'n Hŷn
- Cefnogi Pobl Allan o Dlodi
- Cymunedau Diogel, Hyderus a Grymus
- Prifddinas sy'n Gweithio Dros Gymru
- Caerdydd Un Blaned
- Moderneiddio ac Integreiddio ein Gwasanaethau Cyhoeddus

## Cynllun Corfforaethol Caerdydd 2024-27

Mae'r Cynllun Corfforaethol yn nodi sut y byddwn yn parhau i wneud Caerdydd yn ddinas gryfach, decach a gwyrddach ac yn helpu pobl ifanc i gyrraedd eu potensial yn ogystal â chefnogi'r rhai sy'n cael trafferth gyda'u cyllid a gwneud Caerdydd yn lle gwych i dyfu'n hŷn. Mae'r Cynllun Corfforaethol hwn yn mabwysiadu'r un saith amcan lles â Chynllun Lles Caerdydd.

## Cynllun Gweithredu Caerdydd sy'n Dda i Bobl Hŷn 2024-28

Ymunodd Caerdydd â Rhwydwaith Byd-eang Sefydliad Iechyd y Byd ar gyfer Dinasoedd a Chymunedau sy'n Dda i Bobl Hŷn ym mis Mawrth 2022, aelod cyntaf y rhwydwaith o Gymru, sy'n cadarnhau ein hymrwymiad i bobl hŷn. Nod Cynllun Gweithredu Caerdydd sy'n Dda i Bobl Hŷn 2024-28 yw cyflawni'r weledigaeth gyfrannol o Gaerdydd yn dod yn lle gwych i heneiddio ac yn lle y mae pobl hŷn yn cael eu grymuso, yn iach ac yn hapus.

## Strategaeth Caerdydd sy'n Dda i Blant

Caerdydd yw'r ddinas gyntaf yn y DU i gael ei chydnabod yn ddinas sy'n dda i blant UNICEF: dinas â phlant a phobl ifanc yn greiddiol iddi, lle mae hawliau plant a phobl ifanc yn cael eu parchu gan bawb, lle gwych i gael eich magu.

## Caerdydd sy'n Deall Niwrowahaniaeth

Mae Caerdydd sy'n Deall Niwrowahaniaeth yn fenter ledled y ddinas sydd â'r nod o greu dinas fwy cynhwysol drwy'r canlynol:

- gwella dealltwriaeth a chodi ymwybyddiaeth o sut beth yw bod yn niwrowahanol,
- creu amgylcheddau mwy croesawgar a hygyrch, a
- gwella mynediad at wybodaeth a chyngor.

Mae Cyngor Caerdydd, ynghyd â'r sector cyhoeddus, y trydydd sector a sefydliadau eraill, wedi ymrwymo i helpu teuluoedd niwrowahanol i ffynnu, dathlu eu cryfderau a dileu rhwystrau i gael mynediad at wasanaethau. Mae Strategaeth Caerdydd sy'n Deall Niwrowahaniaeth yn cael ei datblygu, a bydd yn amlinellu'r blaenoriaethau a'r ymrwymiadau allweddol o ran sut y gall partneriaid gefnogi pob person a theulu niwrowahanol yng Nghaerdydd yn well.

# Prif Ystadegau

**Ffigurau 23/24**

**2,127,310**
o ymweliadau wyneb yn wyneb â'n Hybiau a'n Llyfrgelloedd

**15,845**
o aelodau newydd o'r llyfrgell

**78,256**
o lyfrau newydd wedi'u prynu

**175,191**
o blant ac oedolion wedi mynychu digwyddiadau a gynhaliwyd yn ein Hybiau a'n Llyfrgelloedd

**160,954**
o sesiynau cyfrifiadurol

**452,710**
o ymweliadau â gwefan yr Hybiau

**1,908,197**
o lyfrau ffisegol wedi'u benthyg

**211,470**
o eLyfrau ac eLyfrau llafar wedi'u benthyg

**6,607**
o bobl wedi mynychu sesiynau hyfforddi

**96%**
o'r cwsmeriaid a arolygwyd yn cytuno bod yr Hyb yn bodloni eu gofynion

**97%**
o'r cwsmeriaid a arolygwyd yn cytuno eu bod yn fodlon â staff yr Hyb

**£20,098,882**
o fudd-daliadau heb eu hawlio wedi'u nodi gan y tîm Cynghori sy'n cefnogi dinasyddion yn y ddinas

**Dros £1 miliwn**
o daliadau untro wedi'u derbyn gan ddinasyddion drwy gefnogaeth y tîm Cynghori

**11,144**
o sesiynau Cyngor Ariannol wyneb yn wyneb wedi'u darparu gan y tîm

**105,575**
o bobl wedi derbyn cymorth gan y Gwasanaeth i Mewn i Waith

**5,303**
o oriau wedi'u gwirfoddoli

# Gwrando arnoch chi:

**Arolwg Gwasanaeth Hybiau a Llyfrgelloedd Caerdydd a'r Arolwg Plant a Phobl Ifanc**

Er mwyn helpu i lywio'r strategaeth hon, gofynnwyd i ddefnyddwyr Hybiau a llyfrgelloedd am eu barn ar welliannau i'r gwasanaeth drwy arolwg dwyieithog a oedd yn fyw rhwng 1 Hydref a 15 Tachwedd 2024.

Gofynnwyd i'r rhai dros 16 oed gwblhau'r 'Arolwg Gwasanaeth Hybiau a Llyfrgelloedd Caerdydd' (arolwg Oedolion) a gofynnwyd i'r rhai rhwng 8 a 15 oed gwblhau'r 'Arolwg Plant a Phobl Ifanc'.

Roedd yr arolwg yn cynnwys cwestiynau am eu profiad o Hybiau a Llyfrgelloedd a pha welliannau y mae dinasyddion yn teimlo y gellid eu gwneud mewn amrywiaeth o feysydd gan gynnwys llyfrau ac adnoddau, digwyddiadau a gweithgareddau, cymorth digidol a gwybodaeth a chyngor.

Roedd copïau papur o'r ddau arolwg ac amlenni RHADBOST ar gael ym mhob Hyb a Llyfrgell ledled Caerdydd ac roedd fersiynau ar-lein o'r arolygon ar gael hefyd. Cafodd yr arolwg ei hyrwyddo drwy gyfrifon Facebook, X ac Instagram corfforaethol y Cyngor drwy gydol y cyfnod ymgynghori. Ar y cyfan, cymerodd 1,333 o ymatebwyr ran yn yr arolwg, gydag 1,191 ohonynt yn cwblhau'r Arolwg Oedolion, a 142 yn cwblhau'r Arolwg Plant a Phobl Ifanc. Mae'r canfyddiadau wedi'u cynnwys drwy'r strategaeth ar ei hyd ac wedi llywio ein nodau allweddol wrth i ni symud ymlaen.

**Oedolyn**

**75%** o bobl yn defnyddio Hyb / llyfrgell benodol oherwydd eu bod yn byw yn yr ardal..

**25%** o oedolion yn dymuno mwy o E-lyfrau

**40%** o bobl yn defnyddio'u dewis o hyb / llyfrgell o leiaf unwaith yr wythnos.

Llyfrau i gefnogi cwsmeriaid **Niwrowahanol** oedd y thema arbenigol y gofynnwyd amdani fwyaf

Y gwasanaeth mwyaf poblogaidd yw benthyciadau llyfrau - **69.3%** o oedolion wedi cael benthyg llyfrau

**61%** o oedolion yn dymuno Cyngor i bobl hŷn yn eu Hyb

**33%** o oedolion yn dymuno gweld mwy o lyfrau llafar

**53%** oedolion yn dymuno Cyngor Iechyd a Lles

**Plant**

**67%** o blant yn defnyddio Hyb / llyfrgell benodol oherwydd eu bod yn byw yn yr ardal

Clybiau Lego (**46%**), clybiau gemau (**44%**) aac ysgrifennu/ celfyddydau creadigol (**43%**) yw'r gweithgareddau mwyaf poblogaidd

**Pan ofynnwyd Beth fyddai'n gwneud eich Hyb yn lle brafiach i ymweld ag ef?**

Roedd **57%** o'r ymatebwyr yn teimlo y gallent elwa ar 'Man tawel i gael amser pan fyddant yn teimlo eu bod wedi'u llethu'

Dywedodd **46%** 'Offer i'w helpu i ganolbwyntio'

Hoffai **29%** gael 'Gwybodaeth am pryd mae'r hyb yn dawelach'.

**Byddwn yn** darparu Hybiau sy'n Deall Niwrowahaniaeth

# Ein Gweledigaeth

"Darparu gwasanaethau a chymorth o ansawdd uchel i ddiwallu anghenion penodol pob cymuned"

# Nod Allweddol 1:

## Ysbrydoli a hyrwyddo mwynhad o ddarllen, dysgu, creadigrwydd a diwylliant

### Dewis y llyfrau iawn i'n cwsmeriaid

Dywedodd **69.3%** o'r ymatebwyr fod 'Benthyca llyfrau' yn wasanaeth maen nhw wedi'i ddefnyddio yn eu Hyb / Llyfrgell.

Bydd Hybiau a Llyfrgelloedd Caerdydd yn defnyddio offeryn dadansoddi data llyfrgelloedd o'r enw CollectionHQ sy'n gwella perfformiad stoc, gan ein galluogi i deilwra'r casgliadau llyfrau i ddiwallu anghenion ein cwsmeriaid.

Mae **33%** o'r ymatebwyr i'n harolwg yn teimlo y gellid gwneud gwelliannau i'r adrannau ffuglen a ffeithiol.

**Byddwn yn** olrhain dewisiadau ein cwsmeriaid o lyfrau, gan gynnwys math ac iaith, ym mhob lleoliad i sicrhau ein bod yn dewis y llyfrau iawn ar gyfer ein cwsmeriaid.

**Byddwn yn** monitro pa mor boblogaidd yw teitlau llyfrau neu genres penodol i brynu mwy o'r llyfrau y mae cwsmeriaid eu heisiau a hefyd i symud stoc ymlaen os nad yw'n cael ei benthyg fel y gall cwsmeriaid mewn lleoliadau eraill eu mwynhau.



collectionHQ
data. insight. solutions.

## Casgliadau llyfrau cynhwysol

Mae llyfrgelloedd yn cynnig cipolwg ar wahanol fydoedd, ond i lawer, nid yw'r bydoedd hynny bob amser yn adlewyrchu amrywiaeth gyfoethog y darllenwyr sy'n camu trwy eu drysau. Mae mor bwysig bod ein casgliadau llyfrau yn cynnwys llyfrau gan ac am bobl o gymunedau lleiafrifoedd ethnig yn ogystal â'r gymuned LHDTCRhA+.

**Byddwn yn** gweithio i sicrhau bod silffoedd ein Hybiau a'n Llyfrgelloedd yn adlewyrchu'r cymunedau amrywiol yng Nghaerdydd.

**Byddwn yn** ymgysylltu â chymunedau lleol i'n helpu i ddatblygu ein casgliadau er mwyn sicrhau eu bod yn bodloni gofynion lleol.

*"Fel rhywun sydd â dyslecsia, mae'n anodd iawn darllen llyfrau weithiau"*

Dywedodd ein hymatebwyr i'r arolwg a oedd yn dymuno gweld '**Llyfrau Hygyrch Arbenigol**' eu bod yn dymuno casgliadau llyfrau niwrowahanol.

Mae'n amlwg o'r ymgynghoriad yn ogystal ag ymgysylltu â dinasyddion fod angen llyfrau i gefnogi oedolion a phlant niwrowahanol ledled y ddinas. Er bod gennym rai adnoddau ar hyn o bryd, mae angen adolygiad llawn a dull newydd o ddatblygu casgliadau.

**Byddwn yn** ymgysylltu â chwsmeriaid niwrowahanol i ddatblygu casgliadau arbenigol sy'n diwallu eu hanghenion.



## Gwasanaeth llyfrgell digidol

eLyfrau neu eLyfrau Llafar (57.8%) oedd yn cael ei ystyried yr ychwanegiad mwyaf ffafriol yr hoffai ymatebwyr ei weld yn eu Hyb / Llyfrgell.

Yn ystod y Pandemig, newidiodd ymddygiad benthyca llawer o'n cwsmeriaid, gyda newid enfawr yn y galw am lyfrau, papurau newydd, cylchgronau a chomigau digidol. Mae ein E-adnoddau ar gael 24 awr y dydd drwy gatalog ein Llyfrgell. Rydym hefyd yn darparu adnoddau cyfeirio digidol i sicrhau bod gan gwsmeriaid fynediad i'r wybodaeth ddiweddaraf sydd ar gael.

Mae BorrowBox yn ap am ddim sy'n caniatáu i gwsmeriaid bori, benthyca a darllen eLyfrau ac eLyfrau Llafar y llyfrgell. Mae BorrowBox ePress yn cynnig dewis eang o bapurau newydd y DU hefyd, gan gynnwys teitlau poblogaidd sy'n lleol i Gymru.

Mae Libby, gan OverDrive, yn ap am ddim sy'n galluogi cwsmeriaid i fenthyg eLyfrau, eLyfrau Llafar a chomigau o'r llyfrgell.

Mae PressReader yn ap am ddim lle gall cwsmeriaid gael mynediad at bapurau newydd a chylchgronau digidol.




Mae Kanopy yn wasanaeth newydd ffrydio fideos am ddim, sy'n rhoi mynediad i ystod wych o ffilmiau a chyfresi teledu.

Adnoddau digidol ychwanegol sydd ar gael i'n cwsmeriaid:

**Byddwn yn** monitro dewisiadau digidol ein cwsmeriaid yn ofalus ac yn chwilio am gyfleoedd i wella'r gwasanaeth llyfrgell digidol.




## Dathlu Hanes Caerdydd

Dywedodd **39.6%** o'r ymatebwyr i'n harolwg eu bod yn dymuno gweld gweithgareddau Hanes Teulu yn cael eu cynnal yn eu Hybiau a'u Llyfrgelloedd

Dywedodd **47.9%** o'r ymatebwyr i'n harolwg eu bod yn dymuno gweld digwyddiadau Hanes Lleol a Chymunedol yn cael eu cynnal yn eu Hybiau a'u Llyfrgelloedd

Llyfrgell Gangen a Threftadaeth Cathays yw canolbwynt ein casgliad hanesyddol. Darperir llyfrau ac adnoddau sy'n helpu i ddatblygu dealltwriaeth o hanes y ddinas. Mae ein Llyfrgellydd Treftadaeth a'n tîm ar gael i helpu ymchwilwyr achyddol lleol i gael hyd i ddeunyddiau a gwybodaeth angenrheidiol.

Mae'r casgliad cynhwysfawr o astudiaethau lleol yn cynnwys deunyddiau cyfredol a hanesyddol sy'n ymwneud â Chaerdydd, gan gynnwys:

- Llyfrau Lleol
- Taflenni ac erthyglau wedi'u rhwymo
- Papurau newydd (copi caled a microffilm)
- Mapiau (arolwg ordinhad a degwm)
- Adnoddau hanes teulu
- Ffotograffau a phrintiau
- Cyfnodolion a blwyddlyfrau hanesyddol a chyfoes

**Byddwn yn** dathlu hanes a diwylliant unigryw Caerdydd drwy gyflwyno digwyddiadau a gweithgareddau Hanes Teuluol a Hanes Lleol yn ein Hybiau a'n Llyfrgelloedd




## Casgliadau Hanesyddol Caerdydd

Mae gan Hybiau a Llyfrgelloedd Caerdydd gasgliad etifeddiaeth o lawysgrifau hanesyddol a llyfrau a gasglwyd ar ddechrau'r 20fed ganrif, cyn sefydlu Llyfrgell Genedlaethol. Rydym yn cydnabod y byddai gwell cyfleusterau storio a chadwraeth arbenigol o fudd i'r casgliadau hyn. Byddwn yn gweithio gyda sefydliadau arbenigol sydd mewn sefyllfa well i'w hadfer a'u digideiddio. Bydd egwyddorion ar gyfer rhannu yn sicrhau bod Cyngor Caerdydd yn parhau'n berchennog cyfreithiol ar y casgliadau ac y gall dinasyddion Caerdydd eu mwynhau.

**Byddwn yn** gweithio mewn partneriaeth â sefydliadau arbenigol i adfer a diogelu'r casgliadau hanesyddol a, lle bo modd, yn sicrhau eu bod ar gael yn rhwyddach drwy ddigideiddio.

## Y Gymraeg

**Hoffai 41.7% o'r siaradwyr Cymraeg weld 'Grwpiau Darllen Cymraeg**

Mae Hybiau a Llyfrgelloedd Caerdydd yn chwarae rhan bwysig wrth hyrwyddo ymwybyddiaeth o Gymru a diwylliant Cymru a'r defnydd o'r Gymraeg. Mae hyn yn cynnwys sicrhau bod casgliadau helaeth o lyfrau Cymraeg ar gael ym mhob un o'n Hybiau. Rydym yn gweithio gyda chyflenwyr siopau llyfrau Cymraeg lleol i nodi tueddiadau cyhoeddi sy'n darparu casgliadau Cymraeg modern a pherthnasol yn ogystal â chyflwyno rhaglen gweithgareddau Cymraeg.

> **Byddwn yn** cefnogi pobl i ddysgu a siarad Cymraeg drwy sicrhau bod adnoddau Cymraeg ar gael i gefnogi pob math o anghenion darllen a gwybodaeth

> **Byddwn yn** cefnogi'r uchelgais i gynyddu nifer y bobl sy'n dysgu ac yn siarad Cymraeg

CYMRAEG
**80,600**
o siaradwyr Cymraeg yng Nghaerdydd

**85,304**
o lyfrau Cymraeg wedi'u benthyca yn 2023/24

**6,302**
o lyfrau Cymraeg wedi'u prynu yn 2023/4



## Annog Darllen

Hoffai **45.4%** o'r ymatebwyr gael mynediad at Grwpiau Darllen yn eu Hybiau a'u Llyfrgelloedd

Hoffai **43.9%** o'r ymatebwyr fynychu digwyddiadau 'Cwrdd â'r Awdur'

Mae darllen yn sgil bywyd craidd. Mae ymchwil yn awgrymu bod plant ac oedolion sy'n darllen yn iachach, hapusach ac yn fwy hyderus na'r rhai nad ydynt yn darllen. Mae ein Hybiau a'n Llyfrgelloedd yn annog darllen trwy gynnal clybiau llyfrau, cynnal digwyddiadau awduron a thrwy ddarpariaeth cymorth ein staff i'n cwsmeriaid i ymestyn a datblygu eu dewisiadau darllen.

### Grwpiau Darllen

Mae ein grwpiau Darllen yn dod â phobl at ei gilydd i drafod llyfrau. Maent yn amrywio o grwpiau yr ydym yn eu cefnogi sy'n digwydd yn y gymuned i'r rhai sy'n digwydd yn ein Hybiau a'n Llyfrgelloedd. Mae'r grwpiau'n hamddenol, yn anffurfiol ac yn bleserus. Mae'r grwpiau yn cael eu cefnogi trwy ddarparu hyd at 15 o gopïau o'r un llyfr y gallant ei gadw am hyd at 6 wythnos.

**Byddwn yn** cefnogi ein cwsmeriaid i gael mynediad at grwpiau darllen yn yr Hybiau a'r Llyfrgelloedd ac yn y Gymuned

### Grŵp Darllen ar Goedd

Ar ôl cael hyfforddiant a ariannwyd gan Lywodraeth Cymru yn ystod 2024, mae ein Llyfrgellydd Plant a'r Gymraeg wedi cymhwyso fel Arweinydd Darllen hyfforddedig a fydd yn gallu cynnal Grwpiau Darllen ar Goedd. Bydd y grwpiau hyn yn dod â phobl at ei gilydd i ddarllen darnau byrion, cerddi neu stori fer ac os ydynt yn gyfforddus i wneud hynny eu darllen ar goedd neu siarad a rhannu eu teimladau, eu meddyliau a'u hatgofion a ysgogwyd gan y darlleniad. Gall y grwpiau hyn fagu hyder a dealltwriaeth o eraill.

**Byddwn yn** lansio Grwpiau Darllen ar Goedd yn 2025



## Digwyddiadau Llenyddol

Mae digwyddiadau llenyddol yn rhoi cyfle i gwrdd ag awduron sy'n helpu darllenwyr i ddatblygu dealltwriaeth o brosesau creadigol, gan ddyfnhau gwerthfawrogiad o lenyddiaeth ac annog cwsmeriaid i chwilio am lyfrau newydd. Rydym yn chwilio am gyfleoedd i groesawu awduron lleol a chenedlaethol yn ein Hybiau a'n Llyfrgelloedd i roi cyfle i'n cwsmeriaid blymio'n ddyfnach i bwnc y llyfr. Gall hyn ganiatáu cyfnewid syniadau ac ysbrydoli cariad at ddarllen.

**Byddwn yn** chwilio am gyfleoedd i groesawu awduron lleol a chenedlaethol i gyflwyno digwyddiadau cwrdd â'r awdur

## Gwasanaethau Danfon i'r Cartref

Mae ein gwasanaeth danfon i'r cartref yn sicrhau ein bod yn gallu cynnal gwasanaethau i'r rhai sy'n fethedig oherwydd salwch, eiddilwch neu anabledd ac na allant deithio i'w Hyb lleol mwyach.

**Byddwn yn** codi ymwybyddiaeth o'r gwasanaeth danfon i'r cartref i bartneriaid a'r cyhoedd



# Nod Allweddol 2:

## Darparu ffynonellau cywir a dibynadwy o gyngor a gwybodaeth arbenigol

Datganodd Cabinet Cyngor Caerdydd argyfwng tai yn 2023 oherwydd pwysau digynsail ar wasanaethau digartrefedd. Mae ein Hybiau a'n Llyfrgelloedd yn hanfodol i sicrhau bod trigolion sydd dan fygythiad digartrefedd yn gallu cael y cymorth iawn ar adegau iawn o fewn y gymuned.

## Cyngor ar Ddigartrefedd a Thai

Ystadegau ar gyfer 2023/24:

**8,965** o gyfweliadau Rhestr Aros wedi'u cwblhau

**882** o gofrestriadau tenantiaeth wedi'u cwblhau

**82%** o aelwydydd wedi'u hatal yn llwyddiannus rhag mynd yn ddigartref

Mae'r Tîm Datrysiadau Tai yn darparu gwasanaethau yn yr holl Hybiau a Llyfrgelloedd, gan roi cyngor manwl i ymgeiswyr sy'n dymuno ymuno â Rhestr Aros Tai Caerdydd a chynghori ar opsiynau tai eraill. Mae'r tîm hefyd yn cynorthwyo cleientiaid gyda'u cynlluniau gweithredu i'r digartref, yn dilyn asesiad digartref. Cynhelir Gweithdai Canfod Cartref i helpu a chynorthwyo pobl sydd angen cartref i chwilio am lety yn y sector rhent preifat yng Nghaerdydd a'r cyffiniau. Mae'r tîm hefyd yn rhoi cyngor i denantiaid y cyngor pan fyddant yn llofnodi am eiddo, gan sicrhau bod yr holl wybodaeth a chymorth sydd eu hangen arnynt i gynnal eu tenantiaeth ganddynt.

Yn ystod y 12 mis diwethaf mae Apwyntiadau Atal Digartrefedd wedi bod ar gael mewn Hybiau o amgylch y ddinas, lle mae Swyddogion yn gallu darparu cyngor wyneb yn wyneb i gefnogi pobl sydd mewn perygl o ddigartrefedd. Mae amseroedd aros am apwyntiad atal wedi gostwng o 36 diwrnod gwaith ym mis Gorffennaf 2022 i 5 diwrnod gwaith ym mis Hydref 2024. Mae'r Tîm Asesu Digartrefedd wedi'i leoli yn Hyb y Llyfrgell Ganolog bellach ac yn darparu cymorth i bobl sy'n ddigartref ac sy'n gallu cynnal Asesiadau Digartref.

**Byddwn yn** parhau i wella ac ehangu'r cyngor ar dai a digartrefedd sydd ar gael yn yr Hybiau ledled y ddinas.

**Byddwn yn** sicrhau bod cyngor ar dai a digartrefedd ar gael yn rhwydd ac yn hawdd ei ddeall.

## Cyngor Ariannol




Hoffai **40%** o'r ymatebwyr i'n harolwg gael mynediad at Wybodaeth a Chyngor Ariannol yn eu Hyb/Llyfrgell

Ystadegau ar gyfer 2023/24:

**15,210** o gwsmeriaid wedi'u cefnogi gan y Tîm Cyngor Ariannol

Hawliwyd mwy nag **£20 miliwn** mewn budd-daliadau

Gwnaed arbedion gwerth cyfanswm o **£2 miliwn**

Mae Tîm Cyngor Ariannol Cyngor Caerdydd yn rhoi cyngor a chymorth i gwsmeriaid a all fod ar ei hôl hi gyda thaliadau rhent, y dreth gyngor neu filiau cyfleustodau. Mae'r tîm yn helpu cwsmeriaid i gyllidebu ac i wneud y mwyaf o'u hincwm drwy wirio hawliadau i fudd-daliadau a'u helpu i wneud hawliadau, ac apelio yn erbyn penderfyniadau ynghylch budd-daliadau. Mae'r tîm hefyd yn rhoi cymorth i gael grantiau, gostyngiadau a chyrchu cynlluniau tlodi tanwydd, yn helpu i agor cyfrifon banc ac yn cynnig talebau banc bwyd a banc tanwydd. Mae'r tîm yn gweithio yn Hyb y Llyfrgell Ganolog ond maent hefyd yn gweithredu tîm allgymorth sy'n rhoi cymorth i bobl mewn amrywiaeth o hybiau eraill yn ogystal â llety â chymorth a banciau bwyd ledled y ddinas. Gall pobl hefyd dderbyn cymorth uniongyrchol drwy Linell Gyngor y tîm, sydd ar gael 6 diwrnod yr wythnos.

**Byddwn yn** sicrhau y darperir cyngor diduedd o ansawdd uchel drwy gydymffurfio â'r Fframwaith Ansawdd Gwybodaeth a Chyngor.

**Byddwn yn** parhau i estyn allan i grwpiau nad ydynt yn draddodiadol yn ceisio cymorth cyngor ariannol, h.y. pobl hŷn, pobl sy'n disgyn y tu allan i gymorth lles, pobl sy'n gadael gofal.

## Gwasanaeth Cynghori Caerdydd

Mae Gwasanaeth Cynghori Caerdydd yn ddarpariaeth a gomisiynwyd yn allanol, sy'n darparu cyngor arbenigol nad yw ar gael drwy wasanaeth cynghori y cyngor ei hun. Mae'r gwasanaeth yn cael ei ariannu gan y Cyngor i ddarparu cyngor annibynnol, cyfrinachol a diduedd ar nifer o faterion gan gynnwys budd-daliadau lles; dyled; tai; perthnasoedd teuluol; cyfraith cyflogaeth; mewnfudo; gwahaniaethu a materion defnyddwyr. Ar hyn o bryd darperir y gwasanaeth gan dîm Cyngor ar Bopeth, sydd wedi'i leoli yn Hyb y Llyfrgell Ganolog, mewn partneriaeth â Chanolfan y Gyfraith Speakeasy gyda sesiynau galw heibio yn cael eu cynnal mewn Hybiau Cymunedol.

**Byddwn yn** darparu atgyfeiriadau amserol i'r cymorth arbenigol sydd ar gael drwy gontract Gwasanaeth Cynghori Caerdydd

## Help i Gyn-aelodau o’r Lluoedd Arfog

Ystadegau ar gyfer 2023/24:

**337** o gwsmeriaid wedi’u cefnogi

**32** o gyn-filwyr wedi’u cefnogi i mewn i dai

Dros **£327,000** o fudd-daliadau wedi’u hawlio.

Mae tîm arbenigol bach yn helpu i gefnogi cyn-filwyr. Gall y cymorth hwn amrywio o gyngor tai a dyledion i gymorth i mewn i waith ac maent yn falch o gael y Wobr Aur yn y Cynllun Cydnabod Cyflogwyr Amddiffyn. Mae’r tîm yn gweithio o Hyb y Llyfrgell Ganolog ond mae’n darparu cymorth allgymorth ar sail amserlen. Mae’r tîm yn gweithio mewn partneriaeth agos iawn â sefydliadau eraill, gan gynnwys y Lleng Prydeinig a ChangeStep.

**Byddwn yn** parhau i ddarparu cymorth ymroddedig i Gyn-filwyr a’u teuluoedd drwy ddarparu cyngor cywir ac amserol.

**Byddwn yn** cefnogi ein Cyn-filwyr a’n Partneriaid drwy gynnal digwyddiadau dathlu mewn Hybiau ledled y ddinas.

**Rydym yn ymrwymo** i gadw’r Wobr Aur yn y Cynllun Cyflogwyr Amddiffyn.

## Cyngor i Ofalwyr Di-dâl

Gall gofalwyr di-dâl gael mynediad at gyngor drwy ein Hybiau a’n Llyfrgelloedd gan gynnwys cyngor ar y lwfans gofalwr, bathodynnau glas, gweithgareddau yn y Gymuned a chymorth ariannol.

**Byddwn yn** hyfforddi staff ein Hybiau a’n Llyfrgelloedd i allu adnabod a chefnogi gofalwyr di-dâl yn well

## Cyngor i Bobl Hŷn

Hoffai **61%** o’r ymatebwyr weld ‘Cyngor i bobl hŷn’

Hoffai **74%** o’r ymatebwyr a oedd yn 55+ oed weld ‘Cyngor i bobl hŷn’

Mae ein swyddog Cynghori Pobl Hŷn yn darparu rhaglen dreigl o glinigau cyngor mewn Hybiau ledled y Ddinas ac yn cefnogi ein cwsmeriaid hŷn gyda gwybodaeth sy’n bwysig iddynt gan gynnwys Pŵer Atwrnai, Tlodi Tanwydd, Credyd Pensiwn yn ogystal â’u cyfeirio i ffynonellau cymorth.

**Byddwn yn** parhau i gefnogi ein cwsmeriaid hŷn gyda’r cyngor sydd ei angen arnynt



## Gwasanaethau Byw'n Annibynnol

Hoffai **50%** o'r ymatebwyr i'r arolwg weld 'Gwybodaeth am gymhorthion ac offer byw'n annibynnol a all helpu'

Independent Living Services

Mae Gwasanaethau Byw'n Annibynnol yn darparu sesiynau gwybodaeth a chyngor ar draws yr hybiau a'r llyfrgelloedd, yn ogystal ag mewn lleoliadau cymunedol lleol eraill.

Mae'r sesiynau ar gael i unrhyw un a hoffai well dealltwriaeth o ba gefnogaeth sydd ar gael iddynt fyw'n annibynnol yn eu cartref ac aros yn rhan weithredol o'u cymuned.

Maent yn gallu cynnig cyngor ar bynciau fel cyfleoedd i wneud y mwyaf o'ch incwm, cymhorthion, offer a thechnoleg a all gefnogi pobl gartref, gweithgareddau cymdeithasol yn eich ardal a llawer mwy.

> **Byddwn yn** parhau i ddarparu sesiynau gwybodaeth a chyngor sy'n ceisio cefnogi pobl i aros yn Annibynnol yn eu cartrefi eu hunain



# Nod Allweddol 3:

## Sicrhau bod cymorth ar gael i'r rhai y mae costau byw cynyddol yn effeithio fwyaf arnynt

*"Hoffwn help gyda chyllidebu cartref a dysgu sut i goginio ryseitiau rhad"*

Mae ein Hybiau a'n Llyfrgelloedd yn fannau cynnes a hygyrch am ddim ac wedi'u lleoli'n dda yn y gymuned i helpu'r rhai yr effeithir arnynt gan yr argyfwng costau byw. Rydym yn cydnabod heriau rhai o'n cwsmeriaid ac wedi ymrwymo i ddarparu'r gefnogaeth sydd ei hangen arnynt.

## Digwyddiad Costau Byw

Mae'r Gwasanaeth Cynghori wedi trefnu digwyddiadau Costau Byw yn Hyb Star, Hyb Llaneirwg a Hyb y Llyfrgell Ganolog. Mynychwyd y digwyddiadau gan sefydliadau partner fel Age Concern, Dŵr Cymru, Octopus Energy, Cyngor ar Bopeth a Thîm Lles Cyngor Caerdydd. Roedd cyngor a chefnogaeth ar gael ar y diwrnod ar amrywiaeth o fentrau costau byw, roedd mynychwyr a'u teuluoedd yn gallu cymryd rhan mewn sesiynau blasu lles a gweithgareddau crefftau hwyliog.






## Ardaloedd Croeso Cynnes




Mae Hybiau a Llyfrgelloedd Caerdydd yn croesawu cwsmeriaid i'r holl adeiladau bob gaeaf fel rhan o'r Ymgyrch Croeso Cynnes. Mae'r mannau yn darparu amgylchedd diogel a chynnes i gwsmeriaid a phaned i gynhesu. Gallant gwrdd ag eraill i sgwrsio, darllen llyfr, defnyddio gwasanaethau a chael gwybod am y cymorth sydd ar gael am dai, hawlio budd-daliadau (gan gynnwys Credyd Pensiwn), cymorth dyled, gwybodaeth am grantiau a gostyngiadau a llawer mwy.

## Pecynnau Cynnes

Mae Hybiau a Llyfrgelloedd Caerdydd yn cynorthwyo trigolion agored i niwed i gadw'n gynnes yn ystod misoedd y gaeaf drwy ddarparu pecynnau cynnes y gaeaf. Mae cyllid allanol wedi'i sicrhau i ddarparu'r pecynnau sy'n cynnwys het, menig, blanced, dillad thermol, sgarff, mwg thermol a chynheswyr dwylo. Mae'r pecynnau yn cael eu dosbarthu i'r rhai mewn angen mewn Hybiau a Llyfrgelloedd ledled y ddinas. Darperir cymorth hefyd i'r rhai sy'n wynebu tlodi tanwydd.




## Tlodi Mislif

**8,119** o gynhyrchion mislif wedi'u darparu rhwng Ebrill 2022 a Rhagfyr 2024

Mae ein Hybiau a'n Llyfrgelloedd wedi ymrwymo i gefnogi'r ymgyrch Tlodi Cyfnod, sy'n helpu i fynd i'r afael â thlodi mislif. Rydym yn cefnogi unigolion agored i niwed sydd ar ganol mislif i gael mynediad at gynhyrchion mislif am ddim mewn ffordd ymarferol ac urddasol, drwy ddarparu cynhyrchion mislif hygyrch am ddim.

Mae cwsmeriaid wedi elwa mewn amrywiaeth o ffyrdd fel neiniau a theidiau yn gallu cael mynediad at gynhyrchion ac addysg am ddim i'w hwyresau wrth iddynt ofalu amdanynt yn ystod gwyliau ysgol.

*" Mae'n rhaid i mi gyllidebu gymaint i oroesi ac mae hyn yn newid byd "*



## Ryseitiau rhad a Siopa ar gyllideb

Mae'r tîm Cyngor Ariannol yn darparu cyrsiau 'Ryseitiau Rhad' a 'Siopa ar Gyllideb' yn ein Hybiau yn ogystal â lleoliadau cymunedol eraill ledled Caerdydd. Mae'r sesiynau yn cefnogi pobl i ddatblygu eu sgiliau rhifedd gweithredol fel y gallant greu prydau bwyd rhad ac ymgorffori ffyrdd creadigol o arbed arian wrth siopa. Yn ystod y cyrsiau, mae Cyngor Ariannol yn bresennol i roi cyngor penodol i unigolion lle bo angen ac maent yn rhoi taleb bwyd gwerth £20 i helpu pobl i ymarfer eu sgiliau siopa ar gyllideb newydd. Mae pob dysgwr hefyd yn derbyn popty araf neu beiriant ffrïo aer i'w cefnogi i goginio prydau fforddiadwy. Rhoddir cyfle i bob dysgwr ennill achrediad Agored Cymru yn ystod y cyrsiau.re given the chance to gain Agored Cymru accreditation during the courses.





## Cyllidebu ar gyfer Credyd Cynhwysol

Mae Lluosi Caerdydd yn cyflwyno cwrs Cyllidebu ar gyfer Credyd Cynhwysol yn ein Hybiau i gefnogi cwsmeriaid sy'n defnyddio Cyngor Ariannol i ddatblygu eu sgiliau i reoli eu biliau cartrefi a gwneud i'w harian fynd ymhellach. Mae Cyngor Ariannol ar gael yn ystod y cwrs hwn i roi cyngor arbenigol pwrpasol, ac mae Cymru Gynnes hefyd yn mynychu i roi cyngor ar leihau biliau ynni a rhoi gwybod i gwsmeriaid am gymorth ariannol pellach sydd ar gael iddynt. Rhoddir cyfle i bob dysgwr ennill achrediad Agored Cymru yn ystod y cwrs.

## Talebau banc bwyd

Mae gan bob un o'n Hybiau a'n Llyfrgelloedd aelodau staff sydd wedi'u hyfforddi'n llawn i roi talebau Banc Bwyd i gwsmeriaid mewn angen. Mae'r rhai sy'n gymwys yn gallu derbyn eu talebau ac yn gallu mynd â nhw i'w banc bwyd lleol i dderbyn cyflenwadau bwyd.

Cardiff foodbank
Banc Bwyd Caerdydd

## Nôl i'r ysgol!




Mae ein Hybiau a'n Llyfrgelloedd yn cefnogi rhieni sydd angen cymorth gyda chost yr ysgol. Mewn partneriaeth â Better Fit fe wnaethom gasglu gwisgoedd ysgol a dillad addysg gorfforol diangen mewn blychau rhodd ledled ein Hybiau. Mae'r dillad yn cael eu casglu i'w glanhau, a dosberthir rhai o'r gwisgoedd a'r dillad yn ôl trwy'r Hybiau drwy ddigwyddiadau wedi'u targedu. Darperir cymorth pellach gyda chost yr ysgol drwy gynnig gwasanaeth torri gwallt am ddim, setiau deunyddiau ysgrifennu a chymorth gyda cheisiadau grant.

## Grant Hanfodion Ysgol

Mae staff ein Hybiau yn helpu teuluoedd ar incwm isel i wneud cais am y Grant Hanfodion Ysgolion. Mae cwsmeriaid yn gallu defnyddio'r grant i brynu pethau fel:

- gwisg ysgol,
- dillad chwaraeon,
- gwisg ar gyfer gweithgareddau cyfoethogi, fel chwaraeon cymunedol
- bagiau ysgol, a
- deunyddiau ysgrifennu

## Cymorth i wneud cais am Brydau Ysgol Am Ddim

Mae staff ein Hybiau yn helpu ein cwsmeriaid sydd mewn angen i wneud cais am gymorth prydau ysgol am ddim. Rhoddir cymorth i lenwi'r ffurflen gais a'i chyflwyno ar eu rhan. Rydym hefyd yn cefnogi cwsmeriaid sy'n aros am ddiweddariad ar eu cais drwy gysylltu â'r tîm Prydau Ysgol am Ddim.



## Cymorth i wneud cais am docynnau bws am ddim

Mae staff ein Hybiau yn helpu ein cwsmeriaid, gan gynnwys y rhai sy'n hŷn, yn anabl ac â nam ar eu golwg, i wneud cais am docynnau bws am ddim. Rhoddir cymorth i lenwi'r ffurflenni cais a'i chyflwyno ar eu rhan.

## Cymorth yn ôl yr Angen

Darperir cymorth i bobl sy'n agored i niwed ac sy'n methu â chael mynediad at wasanaethau'n annibynnol ac sy'n cael trafferth cynnal eu llety. Mae ein Hybiau yn nodi cwsmeriaid sydd angen help ac yn eu cyfeirio i'r tîm Cymorth yn Ôl yr Angen. Yna mae'r tîm Cymorth yn Ôl yr Angen yn cwrdd â chwsmeriaid mewn lleoliad o'u dewis sy'n cynnwys yr Hybiau.

**Byddwn yn** helpu ein cwsmeriaid sydd ei angen fwyaf

# Nod Allweddol 4:

## Galluogi mynediad at dechnoleg a fformatau digidol, gan gefnogi mwy o gynhwysiant digidol

Mae dros **dri o bob deg** o bobl sydd wedi cwblhau ein harolwg yn dymuno mynediad at gymorth digidol yn eu Hyb neu Lyfrgell

Mae **43.3%** o'r bobl dan 35 oed a ymatebodd i'n harolwg eisiau cymorth Sgiliau Digidol yn eu Hybiau a'u Llyfrgelloedd

*"Hoffwn i gyflwyniad i Ddeallusrwydd Artiffisial, cymorth gydag ymwybyddiaeth o sgamiau a help gyda fy niogelwch ar-lein"*

**2633**
o bobl wedi derbyn cymorth digidol



**3795**
o enghreifftiau o gymorth digidol



**1025**
o bobl wedi cwblhau gweithdy digidol



**328**
o dabledi wedi'u rhoi yn rhodd

Ein Hybiau a'n Llyfrgelloedd yw'r pwynt cyswllt cyntaf yn aml i ddinasyddion sy'n chwilio am gysylltedd digidol. Mae cwsmeriaid yn gallu cael mynediad at Wi-Fi am ddim, cyfrifiaduron llyfrgell gyda phorwyr cyfoes, gwasanaethau sganio ac argraffu. Mae ein cwsmeriaid yn cael eu cefnogi i ddatblygu'r sgiliau angenrheidiol i fanteisio i'r eithaf ar y buddion y gall darpariaeth ddigidol eu darparu. Mae ein Hybiau a'n Llyfrgelloedd yn adnabyddus fel mannau diogel ac i rai grwpiau sy'n cael eu hystyried yn fwy mewn perygl o allgau digidol, e.e. pobl hŷn, maent yn lleoliadau dibynadwy lle mae dinasyddion yn teimlo eu bod yn cael eu diogelu rhag niwed ac yn gallu meithrin sgiliau llythrennedd cyfryngau sy'n rhoi'r hyder iddynt gymryd cam tuag at gynhwysiant digidol.

Mae cynhwysiant digidol a chymdeithasol yn flaenoriaethau i sicrhau bod pobl yn gallu mynd ar-lein yn hyderus, yn ddiogel a defnyddio dyfeisiau a'r rhyngrwyd er budd eu hiechyd, eu lles a'u sgiliau ar gyfer gwaith a bywyd.

## Tîm Cymorth Digidol




Mae ein Tîm Cymorth Digidol yn cynnig gwasanaethau galw heibio, clybiau cymdeithasol a gweithdai.

Gall cwsmeriaid gael mynediad at gymorth gydag ymholiadau digidol. Mae'r rhain yn amrywio o ddefnyddio dyfais am y tro cyntaf, deall sut i amddiffyn eu hunain ar-lein ac adnabod sgamiau, cadw mewn cysylltiad, siopa ar-lein, cael mynediad at hobïau ar-lein, a/neu chwilio am gymorth a gweithgareddau lleol. Mae hefyd sesiynau i helpu i wella sgiliau gan ddefnyddio Microsoft, offer ar-lein fel Canva ar gyfer creadigrwydd, codio, a chyfryngau cymdeithasol ar gyfer busnes.

## Sesiynau Galw Heibio a Chlybiau Sgiliau Digidol

Ochr yn ochr â sesiynau galw heibio ledled y ddinas, mae clybiau cymdeithasol a gweithdai sy’n cefnogi grwpiau o bobl â diddordebau tebyg i roi hwb i’w lles, sgiliau cymdeithasol a sgiliau digidol. Mae’r sesiynau hyn yn boblogaidd iawn gyda phobl hŷn. Mae’r sesiynau grŵp yn aml yn cael eu harwain gan ddysgwyr, gyda’r pwyslais ar ddangos i bobl fanteision bod ar-lein drwy weithgareddau sy’n seiliedig ar hobïau a diddordebau, megis chwarae gemau, cael mynediad at wasanaethau fel gwasanaethau y Cyngor, y Llyfrgell a’r GIG, cadw mewn cysylltiad â ffrindiau a theulu, a chael mynediad at grwpiau cymunedol yn ddigidol.



## Cefnogi mynediad at wasanaethau

Mae llawer o bobl yn ymgysylltu â’r gwasanaeth i gael mynediad at wasanaethau’r Cyngor, megis gwasanaethau llyfrgell, rheoli eu Treth Gyngor, cyfrifon Tai, gwneud cais am Fathodynnau Glas, Ysgolion a Thrafnidiaeth, yn ogystal â chymorth i gysylltu â thimau fel trwyddedau parcio ar-lein. Mae cymorth i gael mynediad at Wasanaethau Llyfrgell ar-lein yn boblogaidd, gyda thrigolion ledled y ddinas yn cael cymorth i gofrestru ar gyfer y gwasanaeth llyfrgell ar-lein a chael mynediad at lwyfannau ar-lein fel Borrow Box, Press Reader a Kanopy.



## Amddifadedd digidol

Mae amddifadedd digidol yn fater sylweddol ledled Caerdydd. Blaenoriaeth y Tîm Cymorth Digidol yw sicrhau bod gan bawb fynediad i’r rhyngrwyd a

dyfeisiau. Mae'r Tîm Cymorth Digidol yn cynnig cynlluniau rhoi Tabledi a Data. Cefnogir pobl heb fynediad at ddyfeisiau a data i gael mynediad at dabled am ddim, a data am hyd at 12 mis drwy'r Banc Data Cenedlaethol. Mae pawb sy'n cael tabled yn rhodd yn cael ei gefnogi ar sail 1:1 i sicrhau eu bod yn gyfforddus ac yn gallu defnyddio eu dyfais newydd. Gall cwsmeriaid gael mynediad at gymorth mentora pwrpasol gan Swyddog Digidol, cymorth galw heibio gan y tîm mewn Hybiau a Llyfrgelloedd lleol iddynt, a hyfforddiant ystafell ddosbarth mewn Gweithdai.

**Byddwn yn** esblygu ein cymorth digidol presennol i ddarparu ar gyfer technolegau newydd gan gynnwys Deallusrwydd Artiffisial

**Byddwn yn** parhau i gefnogi ein pobl fwyaf agored i niwed i'w harfogi â sgiliau digidol a mynd i'r afael â thlodi digidol yng Nghaerdydd

## Gorsafoedd Sganio

Mae gorsafoedd sganio ar gael ym mhob Hyb i gefnogi cwsmeriaid i sganio dogfennau personol ar gyfer hawliadau budd-daliadau, treth gyngor a chymorth tai. Mae staff ein Hybiau a'n Llyfrgelloedd yn helpu'r rhai nad oes ganddynt sgiliau digidol i ddefnyddio'r gorsafoedd.



## Gwefan Hybiau Caerdydd




www.hybiaucaerdydd.co.uk

Mae gwefan Hybiau Caerdydd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i gwsmeriaid am yr hyn sy'n digwydd ar draws holl Hybiau a Llyfrgelloedd Caerdydd. Mae hyn yn cynnwys:

- Gwybodaeth, amseroedd agor a manylion cyswllt ar gyfer pob un o'r safleoedd
- Llogi ystafelloedd – mae gan y gwasanaeth ystod eang o leoedd ar gael i'w llogi gan gynnwys ystafelloedd cyfarfod, ystafelloedd cyfrifiaduron, neuaddau chwaraeon, stiwdios dawns, ystafelloedd cyfweld preifat ac ystafelloedd amlbwrpas sydd ar gael am bris cystadleuol
- Calendr digwyddiadau y gellir ei hidlo yn ôl dyddiad, lleoliad neu fath o ddigwyddiad
- Gwybodaeth am y gwasanaethau a ddarperir yn yr Hybiau a'r Llyfrgelloedd, gan gynnwys:
- Gwasanaethau Llyfrgell

**Byddwn yn** hyrwyddo'r wefan Hybiau yn well a gwella ymweliadau â'r wefan

# Nod Allweddol 5:

## Cefnogi pobl i uwchsgilio, dod o hyd i gyflogaeth barhaus â chyflog uwch

Roedd tua 10,200 o bobl 16 oed neu hŷn yng Nghaerdydd yn ddi-waith yn y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Rhagfyr 2023. Mae hyn yn gyfradd o 5.0%. Roedd hyn yn gynnydd o'i gymharu â'r flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Rhagfyr 2022 pan oedd y gyfradd ddiweithdra yn 3.1%. Mae hyn yn uwch na chyfartaledd Cymru o 3.7% yn y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Rhagfyr 2023.

**Yn ystod 2023/24**

- 105,757 o bobl wedi derbyn cymorth gan y Gwasanaeth i Mewn i Waith
- 1342 o bobl wedi'u cefnogi i gyflogaeth
- 164 o bobl wedi'u cefnogi i addysg amser llawn
- 20,243 o oriau gwirfoddoli wedi'u hwyluso drwy'r Gwasanaeth Cyngor i Mewn i Waith
    - 3251 o oriau profiad gwaith wedi'u darparu i bobl ifanc sydd â phrofiad o fod mewn gofal ac sy'n derbyn gofal
    - 9891 o oriau profiad gwaith wedi'u darparu i bobl ifanc y Prosiect SEARCH
- 690 o gyrsiau wedi'u cyflwyno gan Addysg Oedolion / Lluosi gyda **3595 o gyfranogwyr**

Hoffai **34%** o'r ymatebwyr i'n harolwg Wybodaeth a Chyngor i Mewn i Waith yn eu Hyb/Llyfrgell

Hoffai **31%** o'r ymatebwyr 55+ oed yn hoffi cael mynediad at gyrsiau byr un/dau ddydd i'w helpu i ennill sgiliau i fynd i'r gweithle



## Gweithio mewn Partneriaeth

Mae ein staff I Mewn I Waith wedi'u cydleoli yn ein Hybiau sy'n gwneud eu gwasanaethau yn hygyrch i'r rhai sydd angen cymorth i fynd i'r gweithle.

## Gwasanaeth Cyngor i Mewn i Waith

Mae ein Gwasanaeth Cyngor i Mewn i Waith yn darparu pecyn cyflogaeth a sgiliau cyflawn i drigolion Caerdydd, gan gefnogi pobl sydd allan o waith neu sy'n dymuno uwchsgilio i gael gwaith â chyflog uwch a mwy cynaliadwy. Mae'r Gwasanaeth yn cynnwys nifer o dimau gwahanol, gan gynnwys Dysgu Oedolion, Caerdydd ar Waith, a'r Academi Adeiladu Ar y Safle.

## Cymorth Cyflogaeth



Mae cymorth cyflogaeth yn cael ei gyrchu trwy glybiau swyddi sy'n digwydd ledled y ddinas, gwefan bwrpasol (www.imewniwaithcaerdydd.co.uk), gwe-sgwrs, trwy'r Llinell Gyngor a thrwy sianeli cyfryngau cymdeithasol. Mae Clybiau Swyddi yn cael eu rhedeg ledled Caerdydd o dros 50 o leoliadau gwahanol, gan gynnwys Hybiau Cymunedol, ysgolion, lleoliadau llety â chymorth a lleoliadau cymunedol. Gall cynghorwyr helpu gydag ysgrifennu CV, chwilio am swydd a gwneud cais am waith, technegau cyfweliad, cymorth gyda hawliadau Credyd Cynhwysol, Gweithdai HomeFinder a ffurflenni Derbyn i Ysgolion.

## Cyflawni i'r rhai mewn angen



Mae Swyddogion Ymgysylltu â'r Gymuned yn gweithio gyda chymunedau sydd wedi'u tangynrychioli, gan annog pobl i gael mynediad at wasanaethau'r cyngor a chynnal digwyddiadau codi ymwybyddiaeth fel boreau coffi, digwyddiadau lles a chostau byw o'r Hybiau.

I'r rhai sy'n wynebu rhwystrau ychwanegol i gyflogaeth, neu bobl sydd angen cymorth mwy dwys, gall y timau Mentora Oedolion ac Ieuenctid ddarparu cymorth wedi'i deilwra i unigolion. Gall Mentoriaid Cyflogaeth gael gafael ar gyllid i helpu gyda chostau teithio, cael mynediad at gyrsiau hyfforddi penodol i gyflogaeth, helpu tuag at gostau gofal plant, dillad gwaith ac offer i ddechrau gwaith.

## Cyflogaeth i Bobl Hŷn



Mae cefnogi pobl hŷn i mewn i waith yn rhan bwysig o ddarpariaeth yr Hyb Cymunedol; mae'r tîm Mentor Cyflogaeth Oedolion yn cefnogi'r rhai sydd pellaf o'r farchnad lafur neu'n wynebu rhwystrau cymhleth. Mae Mentoriaid Cyflogaeth yn canolbwyntio ar unigolion dros 50 oed, gan eu helpu i fagu hyder, ailhyfforddi a sicrhau cyflogaeth.

## Cyflogaeth Ieuenctid



Mae'r tîm Cyflogaeth Ieuenctid yn cynnal prosiectau cyflogaeth ar gyfer pobl ifanc sydd wedi mynd trwy'r system Cyfiawnder Ieuenctid/Prawf, pobl ifanc sy'n byw yn Butetown a'r ardaloedd cyfagos, pobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant a phobl ifanc sydd mewn perygl o fod yn ddigartref neu'n byw mewn hosteli.

## Dysgu ar gyfer Gwaith

Mae ein rhaglen dysgu ar gyfer gwaith (rhan o'r cynnig dysgu oedolion) yn darparu amrywiaeth eang o hyfforddiant sgiliau gwaith achrededig a heb eu hachredu i helpu dysgwyr i wella eu sgiliau i gael cyflogaeth. Mae cyrsiau, fel Ryseitiau Rhad, Gwasanaeth Cwsmeriaid, Diogelwch Bwyd a Chymorth Cyntaf yn cael eu cyflwyno ar draws Hybiau Cymunedol, ysgolion, lleoliadau cymunedol eraill ac ar-lein, ac maent ar gael drwy gydol yr wythnos, gyda'r nos ac ar benwythnosau.



Mae rhaglenni hyfforddi 'Gyrfa mewn...' wedi'u datblygu'n ddiweddar i roi cipolwg i geiswyr swyddi ar wahanol sectorau cyflogaeth sy'n mynd ati i recriwtio yng Nghaerdydd a'r ardaloedd cyfagos. Hyd yn hyn, mae'r tîm wedi datblygu pecynnau 'Gyrfa mewn...' ar gyfer Gofal Cymdeithasol, Gweinyddu, Cynorthwywyr Addysgu, Lletygarwch, Adeiladu, Diogelwch Personol ar Draciau'r Rheilffordd, Gwaith Warws, Harddwch, Gwaith Barbwr, Glanhau a Gyrru Bysiau.

## Saesneg Sgwrsio

Mae'r Gwasanaeth Cyngor i Mewn i Waith wedi datblygu cwrs 'Gwella Saesneg Sgwrsio' i gefnogi'r rhai sy'n siarad ieithoedd eraill i gael gwaith. Mae'r sesiynau anffurfiol yn cael eu cynnal yn Hyb y Llyfrgell Ganolog yn wythnosol. Mae'r sesiwn yn boblogaidd iawn gyda hyd at 40 o bobl yn mynychu bob wythnos i ymarfer eu Saesneg, gyda chymorth staff.

## Ffeiriau Swyddi



Mewn partneriaeth â'r Adran Gwaith a Phensiynau, mae'r tîm Cyswllt Cyflogwyr yn trefnu Ffeiriau Swyddi lleol a dinas gyfan sy'n croesawu cyflogwyr lleol a chenedlaethol sydd â swyddi gwag byw; gyda'r digwyddiadau mwy yn cael eu cynnal yng Nghanolfan Siopa Capitol ac yn cynnal hyd at 60 o gyflogwyr sy'n rhychwantu'r holl sectorau fel Adeiladu, Diogelwch, Lletygarwch, Cyllid, Addysg a Gwasanaeth Cwsmeriaid. Gwahoddir darparwyr eraill sy'n cynnig cyfleoedd gwirfoddoli, cymorth hunangyflogaeth, darparwyr hyfforddiant, cymorth lles a chyflogadwyedd hefyd i gefnogi ceiswyr gwaith.

## Academi Gofalwyr Caerdydd

Crëwyd Academi Gofalwyr Caerdydd i gefnogi recriwtio ar gyfer y sector Gofal Cymdeithasol, yn dilyn pwysau ar ôl y pandemig a'r gaeaf blynyddol. Mae tîm ymroddedig o gymorth yn cefnogi pobl sydd â diddordeb mewn gweithio yn y sector a darparwyr gofal sy'n ceisio recriwtio. Mae'r llwybr yn cynnwys denu ceiswyr gwaith o brosiectau cyflogaeth y Gwasanaeth i Mewn i Waith, sefydliadau partner a lleoliadau addysg/hyfforddiant i ymgysylltu â'r Academi, sy'n bwydo cyfleoedd gwirfoddoli a chyflogaeth yn y sector. Mae 583 o bobl wedi cofrestru gydag Academi Gofalwyr Caerdydd.

## Gwirfoddoli

Mae tîm Gwirfoddoli'r gwasanaeth yn darparu cymorth i bobl nad yw cyflogaeth yn opsiwn, neu'r rhai sydd angen cymorth ychwanegol cyn chwilio am waith. Nod y tîm Gwirfoddoli yw sicrhau cyfleoedd i gwsmeriaid y Gwasanaeth i Mewn i Waith, i gynyddu hyder a hunan-barch, uwchsgilio ac ennill profiad gwaith, fel llwybr i gyflogaeth.

Mae Mentoriaid Gwirfoddoli yn gweithio'n agos gyda'r tîm Cyswllt Cyflogwyr i sicrhau cyfleoedd ystyrlon a gyda'r Swyddog Gwerth Cymdeithasol i gysylltu ymrwymiadau i'n gwirfoddolwyr. Mae gan y tîm ddau Swyddog Lleoliad Gwirfoddoli Pobl Ifanc hefyd sy'n cefnogi pobl ifanc i sicrhau lleoliadau mewn meysydd o ddiddordeb iddynt a gweithio ochr yn ochr â Gwirfoddolwyr Lles Cymunedol.

Mae'r holl gyfleoedd gwirfoddoli yn cael eu hysbysebu drwy borth ar-lein Gwirfoddoli Caerdydd www.gwirfoddolicaerdydd.co.uk



## Recriwtio talent newydd

Wedi'i leoli yn Hyb y Llyfrgell Ganolog, mae Caerdydd ar Waith yn cefnogi timau'r Cyngor gyda'u recriwtio dros dro byrdymor; mae'r tîm yn paru ymgeiswyr sy'n barod i weithio â rolau dros dro ar draws y Cyngor, gan gefnogi gofynion y gweithlu a galluogi llwybr i yrfa gyda Chyngor Caerdydd, un o'r cyflogwyr mwyaf yn y ddinas. Dros y 12 mis diwethaf, mae'r tîm wedi canolbwyntio ar wneud y gwasanaeth yn fwy hygyrch i bobl a chymunedau sydd wedi'u tangynrychioli yng Nghronfa Ymgeiswyr Caerdydd ar Waith, er enghraifft pobl ifanc, pobl ifanc sy'n gadael gofal, pobl o gefndiroedd ethnig leiafrifol a phobl hŷn. Mae Swyddogion Ymgysylltu â'r Gymuned y Gwasanaeth wedi bod yn codi ymwybyddiaeth o'r gwaith sydd ar gael gyda'r awdurdod lleol mewn cymunedau, yn siarad â grwpiau lleol, yn cynnal digwyddiadau, ac yn cefnogi pobl i ddileu rhwystrau i gyflogaeth gyda'r Cyngor.

**Byddwn yn** darparu'r hyfforddiant a'r gefnogaeth sy'n diwallu anghenion pobl i'w harfogi i gael mynediad i'r farchnad lafur leol

**Byddwn yn** hyrwyddo cyfleoedd gwirfoddoli drwy Borth Gwirfoddoli Caerdydd

**Byddwn yn** cynyddu nifer y ffeiriau swyddi lleol sy'n cael eu cynnal mewn Hybiau lleol ac yn cydweithio â chyflogwyr lleol, darparwyr hyfforddiant, sefydliadau dysgu a sefydliadau partner allweddol.



# Nod Allweddol 6:

## Rhoi cyfleoedd i blant a phobl ifanc gyflawni eu llawn botensial

*"Rwy'n dwlu ar ddarllen a'r llyfrgell."*

*"Dyma fy lle llyfrau lleol. Dim wifi gartref. Rwy'n defnyddio'r cyfrifiaduron ar gyfer gwaith cartref a'r Wi-Fi ar gyfer fy switsh"*

*"Mae'r adran plant yn anhygoel am gynnal digwyddiadau arbennig yn ystod y gwyliau, rydyn ni eisiau mwy."*

**44,784** o lyfrau plant wedi'u prynu yn 2023/24

**32.8%** o blant eisiau gweld llyfrau i bobl ifanc yn eu harddegau ac oedolion ifanc

**32.8%** o blant eisiau gweld 'Llyfrau Gwybodaeth' yn eu llyfrgell



## Annog Darllen i Blant

Gall darllen er pleser gyfrannu at lwyddiant plentyn yn y dyfodol. Mae ein Hybiau a'n Llyfrgelloedd yn gweithio'n agos gydag ysgolion Caerdydd i annog cariad at ddarllen o oedran ifanc. Adnoddau ffuglen, ffeithiol, print a digidol cynhwysol, amrywiol yn ogystal â rhaglen ddigwyddiadau am ddim i blant a phobl ifanc.

**Byddwn yn** ymgysylltu â phlant, pobl ifanc a theuluoedd, gan geisio eu syniadau a'u cyfranogiad i sicrhau bod ein casgliadau llyfrau yn diwallu eu hanghenion

### Sialens Ddarllen yr Haf

Yn Haf 2024:

- Cymerodd **7,182** o blant ran yn yr her
- Cynhaliwyd **267** o ddigwyddiadau
- Mynychodd **11,972** o blant a rhieni y digwyddiadau
- Dosbarthwyd **259,023** o lyfrau i blant

Bob Haf anogir plant yng Nghaerdydd i gymryd rhan yn Sialens Ddarllen yr Haf yn ystod gwyliau'r ysgol ac osgoi'r gostyngiad mewn llythrennedd a all ddigwydd. Mae'r her yn annog plant i ddarllen a chymryd rhan mewn rhaglen o Ddigwyddiadau hwyliog Sialens Ddarllen yr Haf.

Er bod miloedd o blant yn cymryd rhan yn yr her bob blwyddyn, nid yw pob un yn llwyddo ei chwblhau. Ein nod yw gweithio'n agosach gydag ysgolion i wella'r gyfradd gwblhau.

**Byddwn yn** recriwtio Gwirfoddolwyr Sialens Ddarllen yr Haf i hyrwyddo ein cysylltiad ag ysgolion

**Byddwn yn** recriwtio mwy o rolau pwrpasol i'r llyfrgell â dyletswyddau a fydd yn cynnwys cefnogi ymweliadau ysgol â hybiau ac yn annog plant i gwblhau'r her ddarllen

### Amser Stori ac Amser Rhigwm

Mae Amser Stori ac Amser Rhigwm yn sesiynau am ddim a gynhelir yn ein hybiau a'n llyfrgelloedd sy'n rhoi cyfle i rieni a gofalwyr fwynhau caneuon, straeon a rhigymau gyda'u plant cyn-ysgol mewn amgylchedd hamddenol a chroesawgar.

Rydym hefyd yn darparu sesiynau helaeth o straeon Cymraeg ac ieithoedd cymunedol i'n cwsmeriaid gael mynediad iddynt.








## Dechrau Da

Mae BookTrust Cymru yn cefnogi teuluoedd ledled Cymru i ddarllen gyda'i gilydd yn rheolaidd. Gall pob plentyn yng Nghymru dderbyn dau becyn Dechrau Da arbennig cyn ei fod yn dair oed. Er bod llawer o'r pecynnau hyn yn cael eu rhoi i deuluoedd gan eu Hymwelydd Iechyd, mae pecynnau Dechrau Da hefyd ar gael i'w casglu o Hybiau a Llyfrgelloedd Caerdydd. Mae ein cydlynydd Dechrau Da mewn cydweithrediad â'r Gwasanaethau Cymorth Cynnar hefyd yn gweithio gyda grwpiau agored i niwed i annog rhieni i ymweld â'r llyfrgell a chael benthyg llyfrau i'w plant ifanc yn rheolaidd. Mae sesiynau wedi eu darparu yn y carchar yn ystod ymweliadau teuluol hefyd.

Mae ein Cydlynydd Dechrau Da yn ymweld â sesiwn Aros a Chwarae Cyngor Ffoaduriaid Cymru yn Eglwys Diwygio Unedig Parkminster sy'n croesawu rhieni a phlant sy'n chwilio am Noddfa. Nod y sesiwn yw creu mannau diogel i helpu plant a theuluoedd i gael hwyl. Rydym yn cefnogi'r sesiynau gyda phecynnau Dechrau Da a llyfrau llun a stori dwyieithog yn ogystal â chyflwyno amser rhigwm synhwyraidd rhyngweithiol gyda'r nod o annog datblygiad Saesneg a Chymraeg.

Mae amseroedd rhigwm yn cael eu cyflwyno hefyd i'r grŵp Seren Dwt sy'n cefnogi teuluoedd plant â Syndrom Down. Heddiw oedd ein 'cyfarfod misol' i blant 0-5 oed sydd â syndrom Down a'u rhieni/gwarcheidwaid.

"Cawsom yr amser rhigwm gorau gyda'r hyfryd Margaret o raglen #dechrauda y llyfrgell!"

Rhoddwyd pecyn llyfrau rhyngweithiol gwych i'n holl deuluoedd hefyd.

Diolch unwaith eto Margaret am sesiwn wych #amserrhigwm #dysgutrwyganu #hwylgydaffrindiau #syndromdown

**Byddwn yn** darparu sesiynau o safon i blant cyn-ysgol ar draws ein holl leoliadau yn ogystal ag yn y gymuned











## Cefnogi Chwarae

Byddai dros ddau o bob pump o ymatebwyr yn cymryd rhan mewn ‘clybiau Lego’, ‘Clybiau Gemau’ ac ‘Ysgrifennu/ celfyddydau creadigol’ (**45.5%**, **43.8%** a **43.0%** yn y drefn honno).

Dywedodd **52.0%** o’r ymatebwyr i’n harolwg eu bod am gael mynediad at weithgareddau Celfyddydol yn eu Hybiau a’u Llyfrgelloedd

Mae’n rhaid i bob awdurdod lleol yng Nghymru ddatblygu cynllun gweithredu i gefnogi hawliau sylfaenol plant i chwarae. Mae Hybiau a Llyfrgelloedd Caerdydd yn cefnogi anghenion chwarae plant drwy ein rhaglen digwyddiadau am ddim gan gynnwys clybiau lego, clybiau gwyddbwyll, sesiynau chwarae synhwyraidd a chwarae anniben. Ein nod yw gweithio i sicrhau bod ein gweithgareddau yn diwallu anghenion plant anabl a’r rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol.

**Byddwn yn** darparu gweithgareddau a digwyddiadau creadigol i blant a phobl ifanc ac yn gweithio gyda phartneriaid i ymestyn ein cynnig presennol.

**Byddwn yn** gweithio i gael gwell dealltwriaeth o anghenion chwarae plant ag anableddau a phlant ag anghenion dysgu ychwanegol.





## Helpu Pobl Ifanc

Nod ein Hybiau a'n Llyfrgelloedd yw cefnogi pobl ifanc. Mae'r gwasanaethau ieuenctid wedi'u lleoli ar y cyd yn Hyb Powerhouse, Llanedern a Llaneirwg ac mae gennym Hyb Ieuenctid pwrpasol yn Butetown.

### Hyb Ieuenctid Butetown

Mae Hyb Ieuenctid Pafiliwn Butetown yn gyfleuster pwrpasol sy'n darparu hyfforddiant sgiliau ar-lein i bobl ifanc o bob rhan o Gaerdydd a chyngor i Mewn i Waith yn ogystal â gweithgareddau hamdden a chymdeithasol. Mae gan yr Hyb neuadd chwaraeon, stiwdio ddawns a hyd yn oed stiwdio recordio cerddoriaeth.

Yn dilyn gwaith adnewyddu a gwblhawyd ym mis Mawrth 2020. Mae'r lleoliad wedi'i drawsffurfio ac yn cynnig ystod ehangach o wasanaethau, gan gynnwys cyngor ar gyflogaeth, datblygu sgiliau, hyfforddiant a gwirfoddoli.

Mae tîm yr Hyb yn sicrhau bod gweithgareddau ar gael i bobl ifanc gan gynnwys ar benwythnosau ac yn hwyr gyda'r nos. Maent hefyd yn sicrhau bod gweithgareddau dargyfeirio ar adegau pan fydd risg uwch o ymddygiad gwrthgymdeithasol, e.e. Calan Gaeaf a noson tân gwyllt.




Rydym yn gweithio gydag asiantaethau partner i ddarparu sesiynau a gweithgareddau dyddiol i bobl ifanc rhwng 3 a 21 oed – gan gynnwys gwyliau ysgol i gadw ein pobl ifanc yn brysur!

> **Byddwn yn** cytuno ar yr opsiwn a ffefrir ar gyfer Hyb Ieuenctid Canol y Ddinas












# Nod Allweddol 7:

## Helpu pawb i fyw'n dda

**Byddwn yn** parhau i gefnogi'r cynllun Daioni Darllen, gan gynnwys unrhyw gynlluniau yn y dyfodol, ac yn prynu casgliadau llawn ar gyfer ein holl Hybiau a Llyfrgelloedd i gefnogi iechyd a lles ein cwsmeriaid.

## Grymuso cymunedau i ofalu am eu hiechyd eu hunain

Mae Hybiau a Llyfrgelloedd Caerdydd yn gweithio gydag Iechyd Cyhoeddus Cymru, sefydliadau'r trydydd sector a meddygon teulu i ddarparu gwybodaeth iechyd ddibynadwy yn ogystal â chynnig gweithgareddau a digwyddiadau yn yr Hybiau i gefnogi iechyd ein cymunedau.

**Daioni Darllen**

> *"Dwi eisiau gwybodaeth am ymdopi â gorbryder ac iselder a byddai ymwybyddiaeth ofalgar yn ddefnyddiol hefyd "*

Datblygir Casgliadau Daioni Darllen gan Lywodraeth Cymru, yr Asiantaeth Ddarllen a Chymdeithas Prif Lyfrgellwyr Cymru. Dewisir y llyfrau gan glinigwyr iechyd a phobl sydd â phrofiad byw ac maen nhw'n darparu gwybodaeth, cyngor a chefnogaeth ddibynadwy. Mae'r Casgliadau Daioni Darllen cyfredol yn cynnwys:-

- Daioni Darllen ar gyfer **Dementia**
- Daioni Darllen ar gyfer Iechyd **Meddwl Oedolion**
- Daioni Darllen ar gyfer Iechyd **Meddwl Oedolion Ifanc**
- Daioni Darllen ar gyfer Iechyd **Meddwl Plant**












## Profion Heintiau a Drosglwyddir yn Rhywiol

Mae Hybiau a Llyfrgelloedd ledled Caerdydd wedi ehangu darpariaeth gwasanaeth Profi a Phostio GIG Cymru drwy ddod yn lleoliad i gasglu pecynnau profi heintiau a drosglwyddir yn rhywiol y gellir eu cwblhau yn breifat.




Mae'r fenter hon yn ceisio helpu unigolion y mae'n well ganddynt beidio ag ymweld â lleoliad gofal iechyd i gael eu profi, y rhai nad oes ganddynt fynediad digidol i brynu hunan-brofion ar-lein, unigolion heb gyfeiriad sefydlog ac ymwelwyr â'r ddinas.

> **Byddwn yn** cefnogi profion cymunedol gyda'r nod o wella iechyd dinasyddion Caerdydd

## Cynllun Benthyca Monitorau Pwysedd Gwaed

*"Beth am wneud gwiriadau iechyd sylfaenol fel pwysedd gwaed?"*

Mae monitorau pwysedd gwaed ar gael yn Hybiau Caerdydd bellach, a gall cwsmeriaid eu benthyg am ddim gan ddefnyddio eu cerdyn llyfrgell, yn yr un modd ag y byddent yn cael benthyg llyfr.

Mae canllaw gwybodaeth yn cyd-fynd â phob benthyciad sydd wedi'i gynhyrchu gyda'r Arweinydd Gwella Ansawdd Meddygon Teulu ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro a Meddyg Ymgynghorol mewn Meddygaeth Iechyd y Cyhoedd yn Nhîm Iechyd Cyhoeddus Lleol Caerdydd a'r Fro.

> **Byddwn yn** parhau i ymchwilio i ehangu'r cynllun



## Sgriniau Digidol




Mae Hybiau Caerdydd wedi gosod 17 o sgriniau digidol sy'n efelychu model sgrin meddygfa ac yn hyrwyddo negeseuon iechyd gan sicrhau bod pobl yn gallu cael gafael ar wybodaeth iechyd o ffynonellau dibynadwy. Mae sgriniau fflat wedi'u gosod mewn safleoedd amlwg yn yr Hybiau lle gall ymwelwyr weld negeseuon iechyd cyhoeddus a negeseuon cyhoeddus pwysig eraill pan fyddant yn yr adeiladau'n defnyddio gwasanaethau'r Hybiau.




Mae ein swyddogion ymgysylltu Iechyd wedi bod yn gweithio gyda phartneriaid, yn fewnol ac yn allanol, i ddarparu cynnwys o safon sy'n hyrwyddo ymgyrchoedd iechyd cyhoeddus a negeseuon a all helpu pobl i wella eu canlyniadau iechyd.

**Byddwn yn** parhau i weithio gyda phartneriaid i hyrwyddo negeseuon iechyd gan ddefnyddio'r Hybiau



## Ymgyrchoedd Ymwybyddiaeth

Mae digwyddiadau iechyd a lles yn cael eu cynnal ar draws Hybiau a Llyfrgelloedd Caerdydd i godi ymwybyddiaeth o ymgyrchoedd iechyd a lles cenedlaethol allweddol a darparu gwybodaeth i'n cwsmeriaid am ffynonellau cyngor a chymorth.

Cynhaliwyd Wythnos Genedlaethol Iechyd y Llygaid eleni rhwng 18 a 24 Medi, gan hyrwyddo pwysigrwydd iechyd llygaid da a'r angen am brofion llygaid rheolaidd i bawb. Gweithiodd ein Swyddogion Cyngor i Bobl Hŷn gydag amrywiaeth o bartneriaid i hyrwyddo cyngor, gwybodaeth ac arweiniad i gefnogi unrhyw un sydd â cholled golwg mewn Hybiau Cymunedol ledled Caerdydd. Mae'r rhain yn cynnwys gwasanaeth Ymdopi'n Well Gofal a Thrwsio, Sight Life a Gwasanaethau Byw'n Annibynnol.

**Byddwn yn** codi ymwybyddiaeth drwy gefnogi ymgyrchoedd iechyd cenedlaethol sy'n ceisio gwella iechyd Cymunedau Caerdydd












## Atal Dementia – Cymunedau Tosturiol

**Hoffai 58.5% o'r ymatebwyr i'n harolwg weld gwybodaeth am Heneiddio'n Iach yn eu Hyb/Llyfrgell leol**

Mae Hybiau a Llyfrgelloedd Caerdydd yn cadw copïau print o'r llawlyfr 'Lleihau eich risg o ddatblygu dementia'. Mae'r llawlyfr yn rhoi gwybodaeth am rai o'r ffactorau risg sy'n gysylltiedig â datblygu dementia a sut y gall gwneud newidiadau i'ch ffordd o fyw nawr helpu i gadw'ch corff yn iach ac atal niwed i'ch ymennydd.




> **Byddwn yn** cyflwyno negeseuon allweddol Atal Dementia ar draws grwpiau oedran ac ethnigrwydd gan gynnwys datblygu adnoddau Hawdd eu Darllen ac mewn Ieithoedd Cymunedol



## Cefnogi'r Rhaglen Sgrinio

Mae'r nifer sy'n manteisio ar yr holl raglenni sgrinio yng Nghaerdydd ymhlith yr isaf yng Nghymru gydag effaith arbennig ar ardal ddeheuol y Ddinas. Cyfieithodd a throsleisiodd y Gwasanaeth Hybiau a Llyfrgelloedd mewn partneriaeth â Bowel Cancer UK, Iechyd Cyhoeddus Cymru, Gwasanaeth Dehongli a Chyfieithu Cymru (WITS), ac Uned Ffilm y Cyngor fideo gwybodaeth am sgrinio canser y coluddyn i ieithoedd Wrdw, Arabeg, Somaleg a Bengali. Mae'r fideos terfynol yn cael eu defnyddio i dargedu'r rhaglen atal hon yng Nghaerdydd.




**Byddwn yn** parhau i godi ymwybyddiaeth o raglenni sgrinio i holl gymunedau Caerdydd

## Cefnogi'r Rhaglen Frechu



Mae ein Hybiau Cymunedol a'n Llyfrgelloedd yn gweithio ar y cyd i godi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd brechlynnau. Cynhaliwyd sesiynau gwybodaeth yn Hyb Butetown, Hyb Trelái a Hyb Grangetown i roi cyfle i rieni ddod i siarad â nyrsys ac arbenigwyr imiwneiddio i ddarganfod mwy am y brechlyn, y frech goch ac i ofyn cwestiynau am unrhyw bryderon sydd ganddynt. Mae clinigau brechu wedi'u lansio hefyd mewn Hybiau dethol yn ystod 2024/25.

Mae'n hanfodol ein bod yn gweithio ar y cyd i wneud gwybodaeth am frechiadau mor hygyrch â phosibl i atal achosion o'r clefyd hwn yn y ddinas.

Crëwyd ffilm arbennig mewn cydweithrediad ag Iechyd Cyhoeddus Cymru i hyrwyddo pwysigrwydd cymryd rhan yn y rhaglen frechu. Mynychodd meddyg o Muslim Doctors Cymru i drafod brechlynnau heb gelatin gyda rhieni a oedd yn mynychu Amser Rhigwm yn Hyb Grangetown, gan fynd i'r afael â phryderon diwylliannol am gynhwysion porc mewn rhai brechlynnau.

**Byddwn yn** parhau i weithio gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro i gynyddu cyfranogiad mewn rhaglenni brechu yng Nghaerdydd

## Ffeiriau Iechyd




Mae ein Hybiau a'n Llyfrgelloedd yn cynnal ffeiriau iechyd i helpu'r gymuned i gael mynediad at wybodaeth a chyngor defnyddiol gan ein partneriaid iechyd. Mae'r digwyddiadau yn cynnwys mynediad at ddeietegwyr, cynghorwyr iechyd rhywiol, cymorth cyflyrau penodol, e.e. Sglerosis Ymledol, cymorth Canser ac Iechyd Meddwl.

> **Byddwn yn** gweithio gyda'n partneriaid Iechyd i wella iechyd Cymunedau Caerdydd

## Gwasanaeth Cymorth Lles

**Mae 51% o'r ymatebwyr eisiau 'Cymorth i ailgysylltu â'ch cymuned a lleihau teimladau o unigrwydd' yn eu Hyb / Llyfrgell leol**

Mae ein Mentoriaid Iechyd a Lles yn gweithio gydag unigolion â phroblemau iechyd meddwl lefel isel ac yn eu cyfeirio i weithgareddau sy'n ceisio hybu lles. Mae gweithgareddau sy'n seiliedig ar ymarfer corff a gyflwynir trwy'r Hybiau cymunedol yn boblogaidd iawn. Mae'r gwasanaeth yn cynnwys tîm Cynhwysiant Cymunedol sy'n darparu rhaglen lawn o weithgareddau i'r gymuned ymgysylltu â nhw. Mae hyn yn cynnwys cerdded, casglu sbwriel, chwaraeon (gan gynnwys chwaraeon cerdded), sesiynau LIFT, dawns a Tai Chi.



- Dywedodd **96%** o'r cyfranogwyr a holwyd am y gwasanaeth mentora a gawsant eu bod yn fodlon neu'n fodlon iawn
- Dywedodd **94%** o'r mynychwyr mewn sesiynau gweithgareddau cymunedol fod mynychu'r sesiynau hyn wedi eu helpu i feithrin a chynnal perthnasoedd
- Dywedodd **88%** ei fod wedi eu helpu i deimlo mwy o gysylltiad â'u cymuned

*"Mae'r gefnogaeth rydw i wedi'i chael gan fy mentor wedi bod yn rhagorol. Doeddwn i ddim yn meddwl y byddai fy mywyd cyfan yn newid o deimlo ar fy isaf i fy holl fyd yn newid. Byddai'n dda pe bawn i wedi cwrdd â fy mentor 11 mlynedd yn ôl oherwydd rwy'n credu y byddwn i'n byw bywyd gwahanol, ond rwy'n edrych ymlaen yn fawr at y dyfodol beth bynnag yw'r canlyniad oherwydd fy mod i'n dysgu amdanaf i fy hun"*

> **Byddwn yn** cefnogi pobl â phroblemau iechyd meddwl lefel isel a'u helpu i gael mynediad at grwpiau sy'n gwella eu lles



## Hybiau Iechyd a Lles

Hybiau Lles yw gweledigaeth Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro ar gyfer dyfodol gofal sylfaenol yng Nghaerdydd a'r Fro. Mae Hyb Lles yn gyfleuster iechyd a lles integredig, sy'n canolbwyntio ar y gymuned, sy'n rhoi mynediad i bobl at ofal sylfaenol (er enghraifft, meddygon, ffisiotherapyddion ac optometryddion) ac ystod ehangach o wasanaethau iechyd, gofal a lles yn y gymuned.

Agorodd yr Hyb Lles yn Llanedern, prosiect partneriaeth sy'n gweithio gyda'r Cyngor, ym mis Chwefror 2023 ac mae'n gwella'r gwasanaethau presennol a ddarperir eisoes drwy ddarpariaeth gymunedol y Cyngor drwy Hyb Powerhouse. Integreiddiwyd amrywiaeth o glinigau iechyd arbenigol i ddarparu 'dull un stop' o ran iechyd a lles dinasyddion.

Mae Cyngor Caerdydd a Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro yn bwriadu adeiladu Hyb Lles integredig newydd yn Park View, fydd yn uno â Hyb presennol Trelái a Chaerau. Bydd hyn yn creu adeilad integredig fydd yn darparu gwasanaethau iechyd, lles a chymunedol. Bydd yr ehangu hyn yn cynnwys caffi newydd, ardal llyfrgell ac ystafelloedd lles a rennir.

**Byddwn yn** uno gwasanaethau'r Cyngor, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro a'r trydydd sector drwy gyfres o Hybiau Lles

GIG CYMRU NHS WALES | Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro | Cardiff and Vale University Health Board






Argraff artist o Hyb Iechyd a Lles arfaethedig Parkview

# Nod Allweddol 8:

## Darparu rhaglenni gwirfoddoli amrywiol sy'n helpu pobl i ddatblygu sgiliau, profiad a chysylltiadau cymdeithasol

Hoffai **21.7%** o'r ymatebwyr i'n harolwg gymryd mwy o ran yn eu cymuned drwy wirfoddoli.

Ystadegau ar gyfer 2023/24:

**116**
o bobl wedi dod yn wirfoddolwyr cymunedol

**4,479.5**
o oriau gwirfoddoli wedi'u cyflawni yn ystod 2023/24

Dros **6,000**
o gyfranogwyr mewn sesiynau dan arweiniad gwirfoddolwyr yn 2023/24.

Mae Gwasanaeth Hybiau a Llyfrgelloedd Caerdydd yn cydnabod faint y gall gwirfoddoli ei gynnig i'r gymuned leol. Mae ein gwirfoddolwyr yn dweud wrthym fod y profiad yn eu helpu i fod yn weithgar ac ymgysylltu'n gymdeithasol, wrth ddysgu sgiliau newydd.

Lansiwyd y Tîm Gwirfoddoli Cymunedol yn 2022 gyda'r nod o ddarparu gweithgareddau a chyfleoedd gwirfoddoli am ddim a hygyrch sy'n cefnogi pobl ledled Caerdydd i wella eu lles. Mae'r gweithgareddau gwirfoddoli yn digwydd yn ein Hybiau a'n Llyfrgelloedd yn ogystal â lleoliadau cymunedol eraill. Ar hyn o bryd, mae tri llinyn i'r tîm:

1. Gweithgareddau Cynhwysiant Cymunedol;
2. Gwirfoddoli mewn hybiau a llyfrgelloedd;
3. Cyfeillio Gofalwyr Di-dâl;



## Gweithgareddau Gwirfoddoli Cynhwysiant Cymunedol

Mae'r gwirfoddolwyr Cynhwysiant Cymunedol yn cefnogi grwpiau cymunedol am ddim a hygyrch sy'n cael eu cynnal mewn Hybiau a Llyfrgelloedd ledled y ddinas gyda'r nod o wella lles. Mae ystod eang o weithgareddau ar gael, gan gynnwys grwpiau cymdeithasol i oedolion hŷn, grwpiau celf a chrefft, grwpiau i bobl â chyflyrau iechyd hirdymor, grwpiau gweithgareddau corfforol fel Tai Chi, grwpiau cerdded, badminton, grwpiau garddio a grwpiau i blant.

### Astudiaeth Achos




Ar ôl profi salwch a newydd symud i fyw yng Nghaerdydd i fod yn agosach at ei theulu, cyfeiriwyd June at Wasanaethau Byw'n Annibynnol i fagu ei hyder a chysylltu â'i chymuned leol. Fe wnaethon nhw gefnogi June i ymuno â grwpiau ar-lein drwy gydol y pandemig a phan godwyd y cyfyngiadau. Roedd June yn awyddus i gael mwy o ddewis o weithgareddau yn ei hardal leol, felly cafodd gefnogaeth Cydlynydd Cymunedol y Gwasanaeth Byw'n Annibynnol i ddechrau clwb cinio newydd yn Nhafarn y Village, Pentwyn ym mis Hydref 2021 gyda hyd at 10-12 o bobl sy'n dal i gyfarfod ac yn cael croeso gan June bob wythnos.

Mae June yn mwynhau Tai Chi felly cafodd ei chyfeirio i'r gwasanaeth Gwirfoddoli Cymunedol gan fod ganddi uchelgais i wirfoddoli a hyfforddi i fod yn hyfforddwr tai chi. Fe wnaethon nhw ariannu'r cwrs hyfforddi Tai Chi a fynychodd June ac mae hi bellach yn helpu eraill i gadw'n actif ac ymwneud â'u cymuned. Mae gan June dros 20 o bobl yn mynychu ei sesiwn yn hyb Powerhouse yn Llanedern bob wythnos.

Mae'r Tîm Gwirfoddoli Cymunedol wedi canolbwyntio ar fentora gwirfoddolwyr i bwynt lle gallan nhw gymryd drosodd arweinyddiaeth grwpiau i ryddhau capasiti i ddarparu mwy o sesiynau i ateb y galw.

**Byddwn yn** ymchwilio, yn datblygu ac yn cyflwyno sesiynau dan arweiniad gwirfoddolwyr gyda'r nod o greu gofod cefnogol i'r rhai sy'n niwrowahanol.

**Byddwn yn** cwblhau ein prosesau recriwtio a chefnogi Gwirfoddolwyr Ifanc i sicrhau bod pobl ifanc yn gallu gwirfoddoli o fewn ein gwasanaeth;

**Byddwn yn** datblygu pecyn hyfforddi ar gyfer gwirfoddolwyr i sicrhau eu bod yn ymwybodol o'r materion sy'n effeithio ar bobl hŷn a bod ganddynt y sgiliau i'w cefnogi



## Gwirfoddoli mewn Hybiau a Llyfrgelloedd

Mae rhaglen dreialu gwirfoddoli wedi'i datblygu i gefnogi Hybiau a Llyfrgelloedd yng Ngogledd y ddinas. Mae gwirfoddolwyr i gefnogi gyda dyletswyddau Hybiau a Llyfrgelloedd wedi bod yn cael eu recriwtio. Mae gwirfoddolwyr wedi cael eu recriwtio hefyd i gyflwyno sesiynau Stori a Rhigwm mewn ieithoedd cymunedol. Mae gwirfoddolwyr wedi cael eu recriwtio hefyd i gefnogi darpariaeth man cynnes i gefnogi pobl sy'n pryderu am gostau byw dros y misoedd oer yn y Llyfrgell Ganolog a'r Hyb. Yn ogystal â darparu man diogel i'r gymuned, mae gwirfoddolwyr hefyd yn gallu cyfeirio i wasanaethau eraill sy'n gallu cefnogi pobl.

**Byddwn yn** datblygu a chyflwyno hyfforddiant systemau ar gyfer gwirfoddolwyr ar System Reoli'r Llyfrgell

**Byddwn yn** parhau i recriwtio gwirfoddolwyr i ddarparu Amser Stori a Rhigwm mewn ieithoedd cymunedol






## Ffrindiau Gofalgar

Eleni rydym wedi datblygu gwasanaeth cyfeillio i Ofalwyr Di-dâl. Gall cyfeillion wneud galwadau ffôn cyfeillgarwch, cwrdd â gofalwyr yn y gymuned neu yn eu cartrefi a helpu gyda thasgau glanhau, garddio neu siopa lefel isel yn ogystal â chwmpeini. Mae cynllun treialu llwyddiannus o'r gwasanaeth wedi'i gyflwyno ac mae cyllid wedi'i sicrhau gan y Loteri Genedlaethol i'w ehangu ymhellach.

> *"Mae pethau wedi ysgafnhau. Mae brawddeg fach neu ateb tawel gan rywun yn eich helpu i ymdawelu. Dwi wedi gallu cysylltu â'r tîm asesu gofalwyr a gofyn am asesiad. Heb y sgyrsiau wythnosol efallai na fyddwn i wedi cael yr hyder i wneud hynny."*

**Byddwn yn** ehangu prosiect Ffrindiau Gofalgar ledled y ddinas

## Cyfeillion Grwpiau Llyfrgelloedd

Rydym yn ddiolchgar am gefnogaeth Cyfeillion Grwpiau Llyfrgelloedd Caerdydd sy'n darparu cefnogaeth mor werthfawr i'n timau Hybiau a Llyfrgelloedd. Gall hyn fod drwy gyflwyno digwyddiadau fel cwisiau atgofion, digwyddiadau hanes lleol, cyngherddau Nadolig a darparu cymorth yn ystod gweithgareddau plant. Mae gwirfoddolwyr Cyfeillion Grwpiau yn gwella rhaglenni gweithgareddau Hybiau a Llyfrgelloedd yn y cymunedau hyn.

awen @ the library

FRIENDS *of* **RHIWBINA** LIBRARY

Friends of Rhydypennau Library






# Nod Allweddol 9:

## Darparu mannau cymunedol ac arbenigol bywiog, croesawgar a chynhwysol – lle diogel a chymdeithasol i bawb

Mae Hybiau Cymunedol Caerdydd wedi'u lleoli ar draws y ddinas, gan ddarparu ystod gynhwysfawr o wasanaethau'r Cyngor a phartneriaid i gymunedau lleol. Y nod yw bod pawb sy'n dymuno ymweld â Hybiau yn eu mwynhau.

## Hybiau sy'n Deall Niwrowahaniaeth

Roedd **57%** o'r ymatebwyr i'r arolwg plant yn teimlo y gallent elwa ar 'Man tawel i gael amser pan fyddant yn teimlo eu bod wedi'u llethu'

Dywedodd **46%** 'Offer i'w helpu i ganolbwyntio'.

Hoffai **29%** gael 'Gwybodaeth am pryd mae'r hyb yn dawelach'.

Fel rhan o'r gwaith o adeiladu Caerdydd sy'n Deall Niwrowahaniaeth, rydyn ni wedi bod yn gweithio gyda'n Hybiau a'n Llyfrgelloedd i'w gwneud nhw'n fwy hygyrch a chynhwysol i bobl sy'n niwrowahanol. Mae hyn wedi cynnwys:-

- Datblygu hyrwyddwyr gweithle niwrowahanol sy'n gallu deall cyfathrebu, adnoddau ac amgylcheddau sy'n cefnogi ein cwsmeriaid niwrowahanol yn well.
- Darparu adnoddau synhwyraidd fel teganau ffidlan, amddiffynwyr clustiau, ffaniau desg a lampau i wneud ein mannau astudio yn fwy hygyrch i'r rhai sydd ag anghenion synhwyraidd
- Creu teithiau rhithwir a sain o'n Hybiau a'n llyfrgelloedd gyda chynlluniau llawr a mapiau synhwyraidd fel y gall cwsmeriaid niwrowahanol gynllunio eu hymweliadau ymlaen llaw
- Datblygu mannau tawelu synhwyraidd y gall cwsmeriaid niwrowahanol eu defnyddio pan fyddant yn teimlo eu bod wedi'u llethu neu'n orbryderus

**Byddwn yn** creu Hybiau a Llyfrgelloedd sy'n Deall Niwrowahaniaeth ac sy'n diwallu anghenion ein cwsmeriaid niwrowahanol.






## Hybiau sy'n Dda i Bobl Hŷn

Gyda phoblogaeth gynyddol hŷn yng Nghaerdydd, mae angen darparu adeiladau cymunedol sydd â lle i wella lles cymdeithasol pobl hŷn ac i gefnogi ffyrdd iach ac actif o fyw a all helpu pobl i barhau'n annibynnol ac yn rhan o'u cymunedau. Mae adeiladau ein Hybiau â'r hyn sydd ei angen i gyflawni'r dyheadau hyn gydag ystafelloedd cymunedol ac ardaloedd allanol, gan gynnwys gerddi cymunedol, neuaddau chwaraeon a chaffis.

> *"Mae'n hygyrch ac mae pobl yn groesawgar iawn i mi fel defnyddiwr cadair olwyn."*

Mae ein hadeiladau yn darparu ar gyfer pobl hŷn er mwyn iddynt gymryd rhan, ymgysylltu a ffynnu ynddynt.

- Mynedfeydd hygyrch
- Toiledau sy'n cydymffurfio â'r Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd
- Mwy o le ar gyfer gweithgareddau cymunedol
- Ardaloedd ar gyfer darllen a myfyrio'n dawel
- Ystafelloedd cyfweld preifat ar gyfer trafodaethau sensitif neu gyfrinachol - mae gwaith adnewyddu mewnol wedi digwydd i wneud y mannau yn groesawgar
- Egwyddorion dylunio sy'n deall dementia

**Byddwn yn** sicrhau bod ein Hybiau a'n Llyfrgelloedd wedi'u paratoi i gefnogi pobl hŷn yng Nghaerdydd






## Hybiau sy'n Deall Dementia

Mae amgylcheddau cefnogol sy'n deall dementia wedi eu sefydlu ym mhob un o'n Hybiau. Mae hyn wedi cynnwys ystyried egwyddorion dylunio sy'n Deall Dementia yn ein hadeiladau gan gynnwys:-

- Lliwiau'r waliau
- Seddi toiled cyferbyniol
- Mynedfeydd wedi'u goleuo'n dda

Rydym wedi ymrwymo i sicrhau bod ein holl staff yn derbyn hyfforddiant Ymwybyddiaeth Cyfeillion Dementia i sicrhau eu bod yn gallu cefnogi ein cwsmeriaid sy'n byw â dementia a'u gofalwyr yn well.

Mae croeso i'n cwsmeriaid sy'n byw â dementia gymryd rhan yn ein rhaglenni gweithgareddau i bobl hŷn sy'n cynnwys Caffis Dementia gyda'r nod o gefnogi eu hysgogiad gwybyddol, eu helpu i gael gafael ar wybodaeth iechyd a gwneud ffrindiau newydd.

> **Byddwn yn** darparu amgylcheddau sy'n cefnogi dementia i'n cwsmeriaid sy'n byw â dementia a'u gofalwyr

Yn gweithio i Ddeall Dementia | Working to become Dementia Friendly

Caerdydd sy'n Deall Dementia | Dementia Friendly Cardiff

Dementia Friendly Vale
Y Fro Dementia Gyfeillgar

## Hybiau sy'n Deall LHDTCRhA+



Mae ein Hybiau a'n Llyfrgelloedd yn fannau croesawgar i bobl LHDTCRhA+. Mae ein cynnig yn cynnwys:-

- Darparu llenyddiaeth hygyrch sy'n gadarnhaol tuag at LHDTCRhA+
- Hyrwyddiadau llyfrau amrywiol amlwg sy'n ailadrodd y man croesawgar i'n cwsmeriaid LHDTCRhA+ ac yn darparu cynrychiolaeth gadarnhaol
- Sicrhau bod mannau cymunedol ar gael i gynnal partneriaid fel Glitter Cymru
- Cymryd rhan weithredol yng Ngŵyl Pride Cymru yn y ddinas
- Gweithio gyda Pride Cymru i gynnal Boreau Coffi Balch yn ein mannau cymunedol

**Byddwn yn** darparu amgylcheddau croesawgar i LHDTCRhA+ mewn Hybiau a Llyfrgelloedd

## Hybiau sy'n Dda i Ofalwyr

Rydym yn gwybod y swydd hollbwysig y mae gofalwyr di-dâl yn ei gwneud a'r cyfraniad maen nhw'n ei wneud i gymdeithas. Rydym am gefnogi a gwerthfawrogi gofalwyr di-dâl a'u helpu i gael mynediad at wybodaeth a chymorth defnyddiol.

Dinas Gofal - Care'Diff
Cefnogi gofalwyr di-dâl yng Nghaerdydd
Supporting unpaid carers in Cardiff

## Hybiau i Bawb

Lansiwyd y prosiect Hybiau i Bawb ddiwedd mis Awst 2023 i ddarparu gofal a chymorth lles gan staff ymroddedig mewn lleoliad cymunedol prif ffrwd i bobl hŷn a'u gofalwyr. Mae Hybiau i Bawb yn cynnig cymorth sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ac ymgysylltu cymdeithasol i bobl hŷn, yn ogystal â seibiant sydd ei angen yn fawr a chyfeirio ar gyfer eu gofalwyr di-dâl. Mae'r gwasanaeth hwn ar gael yn Hybiau Llaneirwg, Rhiwbeina, Grangetown ac Ystum Taf ar hyn o bryd.

> " Mae wedi bod yn mwynhau'r diwrnodau ac mae gweld wynebau rheolaidd yn helpu ei gof. Mae'n dod i arfer yn araf â mynd, y rhan anoddaf yw ei gael i fyny ac allan ond unwaith y mae yno mae'n awyddus i sgwrsio â phobl ac yn cael llawer o fudd o'r gemau corfforol rydyn ni wedi bod yn eu chwarae. "

**Byddwn yn** datblygu ac yn ymgorffori'r dull "Hybiau i Bawb" ymhellach, gan wella mynediad at weithgareddau cymunedol i'r rhai sydd angen cymorth ychwanegol



## Corneli Gofalwyr



Er mwyn cefnogi gofalwyr di-dâl ymhellach, mae 'Corneli Gofalwyr' wedi'u gosod ym mhob Hyb a Llyfrgell i ddarparu'r wybodaeth a'r arweiniad diweddaraf mewn fformatau wedi eu hargraffu.

> **Byddwn yn** cadw'r corneli gofalwyr ac yn gweithio gyda gofalwyr di-dâl i sicrhau eu bod yn addas at y diben

## Staff Hyb sy'n Ymwybodol o Ofalwyr

Mae ein tîm hyfforddi Cymunedau wedi gweithio gyda gofalwyr di-dâl i gyd-lunio hyfforddiant ymwybyddiaeth o ofalwyr ar gyfer staff cymunedol i sicrhau eu bod yn ymwybodol o hawliau gofalwyr ac yn atgyfnerthu'r rôl maen nhw'n ei chwarae wrth gefnogi gofalwyr di-dâl drwy ddarparu cyngor a chyfleoedd cymorth.

> **Byddwn yn** sicrhau bod holl staff yr Hybiau a'r Llyfrgelloedd yn cymryd rhan mewn hyfforddiant Ymwybyddiaeth o Ofalwr



## Hybiau Amlddiwylliannol

Mae ein Hybiau a'n llyfrgelloedd yn darparu adnoddau a deunyddiau amlieithog ac amlddiwylliannol sy'n diwallu anghenion poblogaeth amrywiol Caerdydd. Mae llyfrau ar gael mewn 24 o ieithoedd cymunedol ac mae llawer o'n staff a'n gwirfoddolwyr yn siarad sawl iaith gan gynnwys Cantoneg, Arabeg, Somali, Wrdw, Pwyleg a Bengali.

Mae gweithgareddau a dathliadau amlddiwylliannol yn cael eu cynnal bob blwyddyn sy'n pwysleisio bod ein Hybiau a'n llyfrgelloedd i bawb.

Gyda chymorth gwirfoddolwyr, rydym yn darparu amseroedd stori amlieithog ac yn cynnig cefnogaeth i'r rhai sy'n ceisio Noddfa a rhoddir cymorth targedig lle bo'n briodol, fel darparu adnoddau llyfrau Wcreineg i'r rhai sy'n newydd i'r ddinas.

> **Byddwn yn** dathlu diwylliant cymunedau amrywiol Caerdydd














## Tenantiaid Ynghyd

Mae tîm Tenantiaid Ynghyd Cyngor Caerdydd yn gweithio i ymgysylltu â thenantiaid y Cyngor a'u cefnogi i gymryd rhan yn eu cymunedau. Mae llawer o'u gweithgareddau yn digwydd yn yr Hybiau a'r Llyfrgelloedd. Mae'r tîm yn cefnogi tenantiaid drwy'r canlynol:

TENANTSIAID YNGHYD
TENANTS TOGETHER

- Darparu sesiynau galw heibio rheolaidd ar draws Hybiau a Llyfrgelloedd ledled y ddinas i wrando ar bryderon Tenantiaid
- Cyflwyno sesiynau gweithdy chwarterol 'Llais y Tenant' mewn Hybiau a Llyfrgelloedd, gan gynnig cyfle i denantiaid leisio eu barn ar lunio gwasanaethau i Denantiaid
- Hwyluso grwpiau ffocws ar newidiadau arfaethedig ym mholisïau a gweithdrefnau'r Cyngor
- Cynnal boreau coffi pencampwyr cymunedol bob mis mewn Hybiau a Llyfrgelloedd - cyfle anffurfiol i denantiaid gymdeithasu a thrafod unrhyw faterion sy'n ymwneud â thai'r Cyngor.
- Trefnu ystod eang o ddigwyddiadau a phartïon i'n tenantiaid mewn Hybiau a Llyfrgelloedd.
- Cefnogi cynhwysiant cymunedol drwy helpu ein tenantiaid i ffurfio grwpiau sydd wedyn yn defnyddio'r Hybiau fel mannau cymunedol.

**Cyflwynwyd gweithdy gyda'r Tîm Cartrefi Sych yn Hyb Trelái a Chaerau i ganfod barn tenantiaid a lesddeiliaid ar y Pecynnau Lleithder y gellid eu treialu ledled y ddinas i helpu i ymdrin â phroblemau cyddwysiad. Roedden nhw wrth eu bodd â'r cyfle i roi adborth gan ddweud pa mor dda oedd cael bod yn rhan o'r broses o'r cychwyn!**

**Byddwn yn** gwrando ar ein tenantiaid a'u helpu i gael mynediad at gymorth ac i gymryd rhan yn eu cymuned

## Cymorth i Denantiaid

Gall tenantiaid y Cyngor ymweld â'r Hybiau am gymorth gyda chwestiynau a phryderon amrywiol sy'n gysylltiedig â thenantiaeth. Mae hyn yn cynnwys rhoi gwybod am waith atgyweirio, amheuaeth o eiddo gadawedig, cyflwr gerddi, twyll tenantiaeth ac unrhyw bryderon a allai fod ganddynt am les cymydog. Bydd yr atgyfeiriadau hyn yn cael eu hanfon ymlaen at ein Tîm Rheoli Tenantiaeth ymroddedig a fydd yn cysylltu â'r tenant cyn gynted â phosibl.

Gall tenantiaid gyflwyno dogfennau pwysig sy'n gysylltiedig â thenantiaeth yn yr Hybiau, fel hysbysiadau i ddod â'u tenantiaeth i ben neu ddyddiaduron ar gyfer cwynion niwsans sŵn. Gallant hefyd archebu ffob newydd ar gyfer y fynedfa gymunedol i'w fflat, neu gasglu allweddi ar gyfer eu cartref newydd.

Gall tenantiaid hefyd ymweld â'r Hybiau i drafod unrhyw faterion sy'n ymwneud â'u cyfrif rhent. Bydd staff yr Hyb yn cysylltu â'r staff Cyllid arbenigol yn uniongyrchol a fydd yn gallu cynorthwyo gyda'u hymholiad.

## Y Tîm Ymddygiad Gwrthgymdeithasol

Mae'r Tîm Ymddygiad Gwrthgymdeithasol pwrpasol yn gweithio'n galed i leihau ymddygiad gwrthgymdeithasol yn ein cymunedau.  Mae'r tîm yn ymgysylltu'n rhagweithiol â'r gymuned drwy gynnal ein cymorthfeydd ymddygiad gwrthgymdeithasol rheolaidd mewn Hybiau Cymunedol, lle gall aelodau'r cyhoedd adrodd eu pryderon a derbyn cyngor a chefnogaeth gan y tîm.

> **Byddwn yn** hyrwyddo'r cymorthfeydd i gynyddu ymwybyddiaeth o'r gwasanaeth.

## Darparu darpariaeth toiledau cynhwysol

**Mae 130 o doiledau ar gael i'r cyhoedd yn Hybiau a Llyfrgelloedd Caerdydd**

Mae'n hanfodol bwysig bod darpariaeth toiledau yn yr Hybiau a'r Llyfrgelloedd yn hygyrch ac yn gynhwysol, er mwyn diwallu anghenion pob ymwelydd, yn enwedig y rhai sy'n aml yn wynebu rhwystrau pan fyddant yn y gymuned oherwydd cyfleusterau toiled annigonol, e.e. pobl hŷn, rhieni â phlant, unigolion â dementia ac ati. Mae Hybiau a Llyfrgelloedd Caerdydd yn sicrhau bod darpariaeth toiledau hygyrch ar gael i ddinasyddion.

### Toiledau sy'n Cydymffurfio â'r Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd

Er mwyn cynyddu hygyrchedd ymhellach, mae toiledau di-ddwylo wedi'u gosod mewn rhai Hybiau. Nid oes angen unrhyw ddeheurwydd llaw na chorfforol i ddefnyddio'r toiledau hyn. Mae'r cyfleuster yn doiled, bidet a sychwr mewn un uned ac yn helpu cwsmeriaid sydd ag anghenion mwy cymhleth.



### Lleoedd Newid

Mae toiledau Lleoedd Newid yn gyfleusterau sy'n galluogi pawb, ni waeth beth fo'u hanghenion mynediad, anabledd neu ddibyniaeth ar gymorth gofalwyr neu offer arbenigol, i ddefnyddio cyfleuster toiled gydag urddas.

Yn 2024, enillodd Hyb Ystum Taf a Gabalfa wobr Toiled y Flwyddyn am ansawdd a safonau ei dai bach. Cyflawnodd yr Hyb radd Platinwm Plws ar gyfer y cyfleusterau ymolchi a gradd Diemwnt am ei gyfleuster lleoedd newid, yn ogystal â chwpan ar gyfer y cyfleuster Lleoedd Newid gorau yn y DU.

> **Byddwn yn** sicrhau bod toiledau ein Hybiau a'n Llyfrgelloedd yn hygyrch a byddwn yn parhau i wneud gwelliannau pan fydd gwaith adnewyddu yn digwydd.





# Nod Allweddol 10

## Sicrhau bod cymunedau sydd ei angen yn elwa ar wasanaethau'r Hyb a chwilio am gyfleoedd i ehangu'r ddarpariaeth

Mae Gwasanaeth Hybiau a Llyfrgelloedd Caerdydd yn gweithredu gwasanaethau mewn 21 o adeiladau ledled y ddinas, gan ddarparu sylw da i ddinasyddion. Mae hygyrchedd gwasanaethau yn ystyriaeth allweddol i'r gwasanaeth, a fydd yn parhau i ymchwilio i'r potensial i ymestyn y rhwydwaith hwn ymhellach drwy weithio gyda phartneriaid, yn amodol ar y cyllid sydd ar gael.

**Byddwn yn** parhau i ymchwilio i'r potensial ar gyfer hybiau cymunedol, ieuenctid a lles yn y dyfodol lle mae cyllid yn caniatáu

## Allgymorth

Nod y timau Hybiau a Llyfrgelloedd yw gwasanaethu Caerdydd gyfan yn effeithiol, ac felly cydnabyddir bod gwasanaeth allgymorth cryf yn elfen hanfodol o'r ddarpariaeth.

**Byddwn yn** darparu sesiynau allgymorth i ymestyn mynediad at wasanaethau, gan ganiatáu i fwy o bobl ddefnyddio'r adnoddau sydd ar gael yn yr Hybiau a'r Llyfrgelloedd

## Gwasanaeth Danfon i'r Cartref

Mae'r Gwasanaeth Danfon i'r Cartref yn dod â'r llyfrgell yn syth i bobl nad ydynt yn gallu teithio i'w Hyb neu Lyfrgell agosaf mwyach ac sydd dan effaith:

- salwch,
- eiddilwch,
- anabledd,
- gwella ar ôl llawdriniaeth, neu
- ynysu hirdymor.




Darperir y gwasanaeth bob 4 wythnos, gan ddosbarthu a chasglu ystod eang o lyfrau a llyfrau llafar.

Mae'r tîm yn gweithio gyda'r oedolion a'r plant sy'n defnyddio'r gwasanaeth i drafod eu hanghenion a'u chwaeth darllen.

Mae'r Gwasanaeth Danfon i'r Cartref yn gweithio gyda phartneriaid hefyd i ddarparu gwybodaeth a chyngor defnyddiol i gwsmeriaid, sydd wedi cynnwys arolygon Holi Caerdydd, gwybodaeth iechyd gan bartneriaid dibynadwy fel Iechyd Cyhoeddus Cymru, cyfathrebiadau gan Gomisiynydd Pobl Hŷn Cymru, yn ogystal â chylchlythyrau Caerdydd sy'n Dda i Bobl Hŷn a Dinas Gofal.

Mae'r gwasanaeth hwn am ddim ledled Caerdydd.

**Byddwn yn** parhau i ddarparu Gwasanaeth Danfon i'r Cartref, gan ddarparu ystod o lyfrau a gwybodaeth i helpu i gadw ein cwsmeriaid danfon i'r cartref mewn cysylltiad

## Grwpiau Llyfrau Cymunedol

Mae grwpiau llyfrau yn ffordd wych o rannu cariad at ddarllen ac yn rhoi cyfle i bobl roi cynnig ar wahanol fathau o lyfrau. Maent yn effeithio'n gadarnhaol ar ynysigrwydd cymdeithasol ac yn rhoi persbectif gwahanol i ddarllenwyr ar y llyfrau maen nhw wedi'u darllen.

Mae Llyfrgelloedd Caerdydd yn hwyluso tua 50 o grwpiau llyfrau ledled y ddinas gyda thua 550 o bobl yn aelodau. Mae gan y gwasanaeth dros 400 o lyfrau yn y casgliad i'r grwpiau ddewis o'u plith gan gynnwys teitlau print bras, sain ac iau.

Mae grwpiau llyfrau yn casglu eu llyfrau dewisol o'u Hyb neu Lyfrgell leol a'u rhannu ac yn eu â'u haelodau.

Tra bod llawer o'n grwpiau llyfrau yn cwrdd i drafod y llyfr mewn Hybiau a Llyfrgelloedd, mae llawer o grwpiau yn cwrdd i ffwrdd o'n hadeiladau, mewn amrywiaeth o leoliadau cymunedol fel caffis, tafarndai, canolfannau cymunedol, tai aelodau a hyd yn oed ar-lein.

**Byddwn yn** parhau i gefnogi ein grwpiau llyfrau presennol a newydd i fwynhau a chymdeithasu dros eu cariad at ddarllen



## Cymorth cymunedol ymatebol

Defnyddir dull cydweithredol i ymateb i anghenion a all godi weithiau mewn cymunedau penodol. Gellir gweld enghraifft o hyn yng Nglan-yr-afon lle mae gwaith wedi'i dargedu i fynd i'r afael â chynnydd mewn ymddygiad gwrthgymdeithasol sydd wedi digwydd yn yr ardal leol. Er mwyn datrys hyn, datblygwyd ystod o weithgareddau sydd â'r nod o gefnogi plant a phobl ifanc. Roedd hyn yn cynnwys ein timau Gwasanaeth i Mewn i Waith, Cynghori a Chynhwysiant yn gweithio gyda'r Gwasanaeth Chwarae Cymorth Cynnar i ymgysylltu â phlant a phobl ifanc a rhoi cyfleoedd iddynt ddysgu, cymryd rhan mewn gweithgareddau ystyrlon, darganfod llwybrau i gyflogaeth a chael hwyl.

Mae sampl o'r rhaglen wedi'i gynnwys isod:-

### Hyfforddiant Barista

Cydweithiodd y Tîm Lluosi, y Gwasanaeth i Mewn i Waith a Chanolfan Datblygu Cymunedol De Glan-yr-afon i gyflwyno hyfforddiant Dod yn Barista. Yn ystod y sesiwn, archwiliodd y grŵp gymhlethdodau bwydlenni siop goffi a gweithio ar ddatblygu eu sgiliau rhifedd.






### Digwyddiad Cynorthwyydd Addysgu a Gweithiwr Gofal Glan-yr-afon

Cynhaliodd a mynychodd mentoriaid ddigwyddiad ar gyfer gwybodaeth a chymorth Cynorthwyydd Addysgu a Gwaith Gofal. Roedd gweithwyr prosiect yr Academi Gofal a'r Cynorthwyydd Addysgu yn bresennol hefyd. Galwodd 40+ o aelodau o'r cyhoedd i mewn am gefnogaeth.

### Taith i Heatherton World of Activities

Aethpwyd â 112 o bobl o bob oed o'r gymuned i Heatherton World of Activities ar gyfer diwrnod o weithgareddau diddorol. Roedd y daith hon yn gyfle gwerthfawr i deuluoedd gysylltu a mwynhau amser o ansawdd gyda'i gilydd, gan ddarparu ar gyfer pob diddordeb a hyrwyddo lles. Roedd yn arbennig o ystyrlon i'r rhai yr effeithir arnynt gan y pwysau costau byw, gan sicrhau bod gan bawb rywbeth cofiadwy o'r haf. Gwnaeth y digwyddiad hefyd gryfhau cysylltiadau cymunedol, gan feithrin undod a chyfrannu at iechyd a chydlyniant cyffredinol ein cymuned.







## Gwersylloedd hanner tymor

Cynhaliwyd y gwersyll yn llwyddiannus bob dydd Iau yn ystod pob hanner tymor ysgol a thrwy gydol gwyliau'r haf, mewn cydweithrediad â Chanolfan Datblygu Cymunedol De Glan-yr-afon, Prifysgol Metropolitan Caerdydd, a Gweithredu yng Nghaerau a Threlái, gan ddenu 30-40 o blant bob wythnos. Roedd y gwersyll yn darparu amgylchedd diogel a chyfoethog, gan gynnig tawelwch meddwl a gofal plant dibynadwy i rieni. Roedd hefyd yn meithrin rhyngweithio cymdeithasol a gwaith tîm ymhlith plant, gan helpu i leihau ynysigrwydd cymdeithasol a chryfhau cysylltiadau cymunedol, wrth gadw teuluoedd yn ymgysylltu ac yn egnïol yn ystod y gwyliau.









## Taith y BBC

Trefnwyd taith i Ganolfan y BBC yng Nghaerdydd ym mis Awst 2024 gan gynnig cyfle i 18 o bobl ifanc, 12-17 oed, archwilio gwahanol lwybrau gyrfa yn y diwydiant cyfryngau. Dysgon nhw am rolau technegol fel peirianwyr sain a gweithredwyr camera, gyrfaoedd creadigol fel artistiaid colur, a swyddi arwain fel cynhyrchwyr a chyfarwyddwyr. Roedd yr ymweliad hefyd yn arddangos cyfleoedd mewn ysgrifennu sgriptiau, creu cynnwys, a chyfryngau digidol. Gwnaeth cerdded trwy'r stiwdios, gweld darllediadau byw, ac ymgysylltu â gweithwyr proffesiynol ysbrydoli'r grŵp, gan agor eu llygaid i'r posibiliadau cyffrous yn y cyfryngau a sbarduno cymhelliant ar gyfer eu dyfodol.







## Nos Fercher Pêl-droed



Trwy gydol gwyliau'r haf, trefnwyd nosweithiau pêl-droed bob dydd Mercher yn Ysgol Uwchradd Fitzalan mewn cydweithrediad â Phrifysgol Metropolitan Caerdydd. Cafodd y sesiynau eu derbyn yn dda, gyda phresenoldeb cyfartalog o 25-35 o fechgyn bob wythnos. Roedd y sesiynau hyn yn darparu amgylchedd diogel a strwythuredig i bobl ifanc gadw'n actif ac ymgysylltu yn ystod y gwyliau. Fe wnaethant hefyd feithrin gwaith tîm ac ysbryd cymunedol, gan helpu i leihau ymddygiad gwrthgymdeithasol yn yr ardal a hyrwyddo ffordd gadarnhaol, iach o fyw ymhlith cyfranogwyr.

## Noson Merched

Lansiwyd clwb ieuenctid i ferched yn unig, sy'n darparu ar gyfer pobl 11 - 25 oed, gan ddenu hyd at 22 o gyfranogwyr bob wythnos. Roedd y tymor yn llawn cymysgedd o weithgareddau cyffrous gyda'r nod o adeiladu hyder, gwaith tîm, a sgiliau ymarferol. Ochr yn ochr â sesiynau rheolaidd fel coginio a gemau grŵp, cynhaliwyd digwyddiadau arbennig fel sesiwn bocsio gyda hyfforddwyr Met Caerdydd a thaith llawn hwyl â'r ganolfan fowlio. Roedd y gweithgareddau hyn yn gyfle gwych i'r merched ddatblygu sgiliau newydd, bondio â chyfoedion, a rhoi hwb i'w hunan-barch mewn amgylchedd cadarnhaol, cefnogol.



**Byddwn yn** gweithio i ymateb i anghenion cymunedau sydd angen cymorth targedig

## Sesiynau galw heibio ddigidol

Mae cynhwysiant digidol yn flaenoriaeth allweddol i'r gwasanaeth. Er mwyn cynyddu mynediad i ddinasyddion at y manteision y gall darpariaeth ddigidol eu cynnig, mae'r tîm yn gweithredu rhaglen allgymorth helaeth y tu allan i adeiladau Hyb mewn lleoliadau cymunedol ledled y ddinas gan gynnwys llety tai gwarchod, ysgolion a lleoliadau ysbyty.

Mae cynhwysiant digidol a chymdeithasol yn flaenoriaethau i sicrhau bod pobl yn gallu mynd ar-lein yn hyderus, yn ddiogel a defnyddio dyfeisiau a'r rhyngrwyd er budd eu hiechyd, eu lles ariannol a'u sgiliau ar gyfer gwaith a bywyd cymdeithasol.

**Byddwn yn** parhau i chwilio am gyfleoedd allgymorth i ddarparu cynhwysiant digidol a chefnogaeth i'r rhai sydd ei angen






## Gwasanaeth Cyngor i Mewn i Waith

Mae ein Gwasanaeth Cyngor i Mewn i Waith yn darparu pecyn cyflogaeth a sgiliau cyflawn i drigolion Caerdydd, gan gefnogi pobl sydd allan o waith neu sy'n dymuno uwchsgilio i gael gwaith â chyflog uwch a mwy cynaliadwy. Er mwyn sicrhau eu bod yn cyflawni cyrhaeddiad mor eang â phosibl, cynhelir digwyddiadau recriwtio, Ffeiriau Swyddi a gweithgareddau cyswllt Cyflogwyr ledled y ddinas mewn lleoliadau cymunedol fel Ysgolion, Canolfannau Hamdden, Neuaddau Eglwys a Chanolfannau Cymunedol.

**Byddwn yn** nodi cyfleoedd i ymestyn cyrhaeddiad y gwasanaeth ymhellach i'r rhai sy'n chwilio am gyfleoedd cyflogaeth a datblygu.

## Tîm Cyngor Ariannol

Mae’r Tîm Cyngor Ariannol yn cwmpasu’r Tîm Cyngor Ariannol, Cyswllt Lles a’r Tîm Cymorth Budd-daliadau Anabledd. Mae’r Tîm wedi canolbwyntio ar fynychu mannau a lleoliadau newydd y tu allan i Hybiau, i gynnig cyngor ariannol targedig a chymorth gyda dyledion, yn ogystal â gwybodaeth a chymorth i hawlio gwahanol grantiau a gostyngiadau.




Mae’r lleoliadau y mae’r Tîm wedi ymweld â nhw yn cynnwys canolfannau dosbarthu banciau bwyd, Sgwâr Loudon, Marchnad Caerdydd, ysgolion gan gynnwys Ysgol Arbennig Tŷ Gwyn, Ysgol Arbennig Riverbank ac Ysgol Meadowbank, sesiynau Dechrau’n Deg, digwyddiad The Autistic Minds yn Stadiwm Dinas Caerdydd a hosteli.

Mae’r Tîm hefyd yn darparu gwasanaethau yng ngharchardai EF. Mae’r cymorth a gynigir yma ar gyfer y rhai sy’n gadael y carchar o fewn 3 mis, sy’n derbyn gwybodaeth am dai, Credyd Cynhwysol a’r Gwasanaethau Cyngor i Mewn i Waith i’w helpu i drosglwyddo yn ôl i’w cymuned.

**Byddwn yn** parhau i estyn allan i leoliadau targedig i gynorthwyo’r bobl sydd angen ein gwasanaethau cymorth fwyaf.



## Dysgu Oedolion a Lluosi

Mae'r tîm Dysgu Oedolion yn cynnal cyrsiau am ddim i ddysgwyr cymwys sy'n dymuno cymryd eu camau cyntaf yn ôl i ddysgu, cymryd rhan mewn hyfforddiant pellach neu gael mynediad at gyflogaeth.

Mae Lluosi yn rhaglen a ariennir gan lywodraeth y DU i helpu oedolion 19 oed neu'n hŷn i wella eu sgiliau rhifedd.

Gellir defnyddio'r hyn a ddysgir yn Lluosi mewn bywyd bob dydd, helpu plant gyda gwaith cartref, coginio ar gyllideb, hybu sgiliau cyflogadwyedd, rheoli cyllid, a mwy.

Mae'r cyrsiau'n cynnwys:

- Datblygu Gwybodaeth Plentyn am Rif
- Helpu Plentyn gyda Mathemateg
- Taenlenni
- Paratoi Gyrfa
- Rheoli Arian
- Gweithdy Hunangyflogaeth
- Siopa ar Gyllideb
- Cyllidebu ar gyfer Credyd Cynhwysol
- Gweithdy Mathemateg Sylfaenol

Mae'r holl gyfleoedd dysgu uchod a all wella bywydau dinasyddion ar gael mewn lleoliadau Hyb ac yn ychwanegol mewn lleoliadau cymunedol helaeth ledled Caerdydd, gan gynnwys:-

- Ysgolion cynradd
- Lleoliadau cymunedol
- Cynlluniau Byw â Chymorth
- Hosteli i oedolion
- CEF Caerdydd
- Hosteli ieuenctid

**Byddwn yn** parhau i gyflwyno sesiynau Dysgu Oedolion a Lluosi mewn lleoliadau cymunedol hygyrch



## Gwirfoddoli

Mae Hybiau a Llyfrgelloedd Caerdydd yn hynod ddiolchgar i'r gwirfoddolwyr sy'n ein cefnogi i ddarparu gwasanaethau i'n cymunedau. Gall gwirfoddoli ddarparu llwybr i gyflogaeth, cefnogi datblygiad sgiliau, helpu pobl i wneud ffrindiau a gwella eu lles.

### Porth Gwirfoddolwyr Caerdydd

Mae'r Tîm Gwasanaeth i Mewn i Waith yn cynnal platfform ar-lein www.gwirfoddolicaerdydd.co.uk sy'n hyrwyddo cyfleoedd gwirfoddoli i bobl mewn ystod eang o sefydliadau Cyngor Caerdydd ac allanol gan gynnwys Caffi Trwsio Cymru, Hosbis y Ddinas, Gwasanaeth Cymorth Lles Caerdydd, Caerdydd sy'n Deall Dementia, Gŵyl Theatr Awyr Agored Caerdydd, Ymchwil Canser Cymru, Tenovus, Bowel Cancer UK, Papyrus a llawer mwy. Mae'r cyfleoedd gwirfoddoli wedi'u lleoli ledled y ddinas. Mae gan y wefan hefyd opsiwn chwilio i bobl ddod o hyd i wasanaethau sy'n gallu eu cefnogi yn yr ardal maen nhw'n byw.




> **Byddwn yn** parhau i ddarparu amrywiaeth o gyfleoedd gwirfoddoli i bobl ledled y ddinas wrth gysylltu pobl â'r gwasanaethau a ddarperir yn eu hardal



## Sesiynau Cyngor a Chymorth Galw Heibio i Ofalwyr Di-dâl

Mae gofalwyr di-dâl yn chwarae rhan hanfodol wrth gefnogi'r bobl maen nhw'n gofalu amdanynt. Gall hyn fod yn heriol iawn, ac mae'n hanfodol bod cyngor a gwybodaeth am gyfleoedd cymorth yn hygyrch. Mae sesiynau cyngor a chymorth galw heibio i ofalwyr di-dâl yn digwydd mewn amrywiaeth o leoliadau cymunedol. Mae'r rhain yn cael eu cyflwyno ar y cyd gan y tîm a gofalwyr di-dâl eu hunain. Yn ogystal â rhoi cyfle i ofalwyr di-dâl siarad â staff gall y sesiynau hefyd ddysgu o brofiadau eu cyfoedion o'u taith ofalu.

Mae'r sesiynau galw heibio yn caniatáu i ofalwyr di-dâl ddod â'r person sy'n derbyn gofal hefyd.

Ar hyn o bryd mae sesiynau yn cael eu cynnal yn Goldies yn Eglwys Park End, Canolfan Hamdden y Tyllgoed, Clwb Cymdeithasol Memory Lane a Chanolfan Feddygol Cloughmore.

**Byddwn yn** parhau i chwilio am gyfleoedd allgymorth i gefnogi gofalwyr di-dâl mewn lleoliadau cymunedol ac i grwpiau presennol nad ydynt wedi'u lleoli mewn adeiladau Hybiau a Llyfrgelloedd.

## Gwasanaeth Cymorth Lles Caerdydd

Mae Gwasanaeth Cymorth Lles Caerdydd yn mynychu lleoliadau a digwyddiadau cymunedol yn rheolaidd i hyrwyddo'r gwasanaeth, cynnig sesiynau blasu a chyfeirio i wasanaethau eraill a all helpu pobl. Mae'r Gwasanaeth hefyd yn cefnogi cymunedau i recriwtio, hyfforddi a datblygu eu grwpiau cynaliadwy, hunan-arweiniol eu hunain mewn lleoliadau cymunedol.

Mae'r lleoliadau cymunedol y maent yn ymweld â nhw yn cynnwys:



- Cynlluniau Byw yn y Gymuned
- Archfarchnadoedd
- Lleoliadau Llety â Chymorth

Mae'r tîm hefyd yn mynychu nifer o ddigwyddiadau cymunedol i hyrwyddo'r gwasanaethau gan gynnwys digwyddiadau clwstwr meddygon teulu, a diwrnodau o hwyl cymunedol. Mae'r grwpiau cerdded y maent yn eu cynnal yn aml yn cychwyn o leoedd cymunedol y tu allan i'r Hybiau. Mae'r tîm hefyd yn gweithio gyda'r Adran Gwaith a Phensiynau i gyflwyno cyfleoedd gwirfoddoli a mentora i grwpiau i ddod â phobl i mewn i'r gwasanaethau maen nhw'n eu darparu.



**Byddwn yn** parhau i chwilio am gyfleoedd allgymorth i hyrwyddo'r gwasanaeth a chefnogi cymunedau i wella eu hiechyd a'u lles.

## Rheoli Tenantiaeth

Bydd pob Tîm o fewn Gwasanaethau Tenantiaid, e.e. y Tîm Ymddygiad Gwrthgymdeithasol/Rheoli Tenantiaeth a thimau rhent yn ymweld â phobl yn eu cartrefi eu hunain os hyn yw dewis y dinesydd. Mae'r timau sy'n ceisio ymateb i anghenion Tenantiaid yn ogystal â dinasyddion sydd â phryderon ynghylch ymddygiad gwrthgymdeithasol yn gweithio i sicrhau bod gwasanaethau, cyngor a chefnogaeth ar gael yn eang yn y gymuned. Mae'r gwasanaethau hyn ar gael o fewn yr Hybiau, ond mae'r timau'n chwilio am leoliadau cymunedol pellach i ddarparu sesiynau cymorth.

**Byddwn yn** chwilio am gyfleoedd i gyflwyno sesiynau cymorth pellach yn y gymuned

## Gwasanaeth Byw'n Annibynnol

Mae'r Gwasanaeth Byw'n Annibynnol yn cynorthwyo pobl i gael ystod eang o gymorth i'ch helpu i fyw mor annibynnol â phosibl. Er mwyn datblygu ymwybyddiaeth o'r gwasanaethau sydd ar gael, mae'r tîm yn darparu sioeau teithiol Cyngor a gwybodaeth mewn nifer o leoliadau cymunedol gan gynnwys:-

- Canolfannau Meddygol
- Archfarchnadoedd
- Eglwysi
- Canolfannau Hamdden
- Canolfannau Cymunedol



Llan Healthcare @ Maelfa



Tesco Rhodfa'r Gorllewin


Sioe Deithiol Canolfan Iechyd Glan-yr-afon


Meddygfa Minster Road



Sioe Deithiol Asda Bae Caerdydd

**Byddwn yn** cyflwyno sesiynau Cyngor a Gwybodaeth yn y gymuned

## Cyngor Heneiddio’n Dda

Mae ein swyddog cynghori Heneiddio’n Dda yn darparu rhaglen o sesiynau cyngor ledled y Ddinas. Mae’r sesiynau hyn wedi canolbwyntio i ddechrau ar bobl hŷn sy’n ymweld â’n Hybiau a chymryd rhan mewn rhaglenni gweithgareddau pobl hŷn. Mae lleoliadau cymunedol ychwanegol wedi’u nodi ledled y ddinas i ehangu mynediad i’r gwasanaeth.

> **Byddwn yn** chwilio am gyfleoedd yn barhaus i ddarparu Cyngor Heneiddio’n Dda mewn lleoliadau cymunedol hygyrch



# Allgymorth Hybiau a Llyfrgelloedd



# Y Camau Nesaf

Bydd yr amcanion "Byddwn yn" sydd wedi'u rhestru drwy gydol y strategaeth yn sail i gynllun gweithredu pedair blynedd. Bydd y cynllun gweithredu yn darparu manylion y gweithgareddau allweddol sydd i'w gwneud. Caiff y broses o'u rhoi ar waith ei monitro'n ofalus a chaiff y cynllun gweithredu ei adolygu a'i ddiweddaru yn ôl yr angen. Ni all y Cyngor weithredu'r strategaeth ar ei ben ei hun a bydd gwaith partneriaeth yn hanfodol i gyflawni'r canlyniadau gorau.

